



## **Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol**



**2018 –2019**

## Cynnwys

**Adran 1.** Cyflwyniad

**Adran 2.** Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr

**Adran 3.** Sut Mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?

**Adran 4.** Hybu a Gwella Llesiant y Bobl Rydym yn eu Helpu

(a) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni

(b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u llesiant emosiynol

(c) Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag cam-drin, esgeuluso neu Niwed

(d) Cymell a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

(e) Helpu pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol yn ddiogel

(f) Gweithio gyda phobl a'u helpu i sicrhau llesiant economaidd gwell, i gael bywyd cymdeithasol ac i fyw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u hanghenion

**Adran 5.** Sut Rydym yn Cyflawni ein Gwaith

(a) Ein Gweithlu a Sut Rydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

(b) Ein Hadnoddau Ariannol a Sut Rydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

(c) Gweithio gyda'n Partneriaid, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd

**Adran 6.** Cael Gafael ar Ragor o Wybodaeth a Dogfennau Allweddol

## Adran 1. Cyflwyniad

Mae Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych yn dangos sut rydym wedi hybu llesiant a gofalu am gyrraedd safonau llesiant yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Yn yr adroddiad, byddwn yn disgrifio'n glir y gwelliannau rydym wedi'u gwneud wrth ddarparu gwasanaethau i'r dinasyddion hynny sydd wedi cael gwybodaeth, cyngor a chymorth ac i'r unigolion a gofalgwyr hynny sy'n cael gofal a chymorth ledled Sir Ddinbych.

Yn yr adroddiad hwn, byddwn yn darparu gwerthusiad o berfformiad Cyngor Sir Ddinbych wrth gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Wrth lunio'r adroddiad hwn, rydym wedi ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys dinasyddion sydd wedi rhannu eu profiadau o dderbyn gofal a chymorth gan ein Gwasanaethau Cymdeithasol a phartneriaid sydd wedi ein helpu i gyflenwi'r cymorth hwnnw.

Byddwn yn egluro sut rydym wedi cyflawni 6 safon ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer canlyniadau llesiant:-

1. Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chydgynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl am eu cyflawni
2. Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u llesiant emosiynol
3. Gweithio gyda phobl a'u helpu i wella eu llesiant economaidd, i gael bywyd cymdeithasol ac i fyw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u hanghenion
4. Helpu pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach
5. Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas
6. Amddiffyn a diogelu pobl rhag cam-drin, esgeuluso neu niwed

## **Adran 2. Crynodeb o Berfformiad gan y Cyfarwyddwr**

### **Crynodeb y Cyfarwyddwr o Berfformiad**

Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 2018-19 Sir Ddinbych. Pwrpas yr adroddiad ydi rhoi asesiad teg o'r hyn roeddem yn bwriadu ei wneud eleni, yr hyn rydym wedi ei wneud a'i gyflawni a'r hyn sydd gennym i'w wneud eto.

Dros y 12 mis diwethaf mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi crynhoi ffyrdd newydd o weithio a gyflwynwyd trwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a cheisio mynd i'r afael â meysydd i'w gwella a gafodd eu nodi trwy ymgysylltu gyda'n dinasyddion.

Rydym ar y ffordd i gyflawni ein cyd-weledigaeth, i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn y gymuned, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Rydym wedi sefydlu 2 Dîm Adnoddau Cymunedol yn Rhuthun a'r Rhyl, lle mae staff iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio, a bydd 2 arall yn dechrau yn ystod 2019/2020.

Mae staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ceisio cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer ein dinasyddion i'w helpu i fyw bywydau annibynnol a chyflawn, gan weithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid. Maent yn cyflawni hyn mewn cyfnod o ostyngiad parhaus mewn adnoddau a mwy o alw am wasanaethau.

Bydd ein ffocws ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn cynnwys prosiectau sydd yn parhau ers y llynedd a datblygiadau newydd megis:-

- Datblygu ystod o wasanaethau i gefnogi mwy o ofalwyr ar draws Sir Ddinbych sydd yn debyg i'r prosiect garddio a sefydlwyd yn Tweedmill, Llanelwy.
- Gweithio tuag at Gyngor Sir Ddinbych sydd yn Gyfeillgar i Dementia
- Cwblhau ein hadolygiad ar ôl cyflwyno Cyllidebau Cymorth a gweithio'n agos gyda'n partneriaid a darparwyr i sicrhau fod gan ein dinasyddion ddewis a rheolaeth lawn o'u hanghenion gofal a chymorth.
- Bydd Gwasanaethau Plant yn parhau i weithredu arferion a phrosesau diwygiedig yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.
- O fewn ein gwasanaethau iechyd meddwl, byddwn yn llunio rhaglen ddysgu sydd ag agwedd gwella a lles lle bydd sesiynau'n cael eu cynnal mewn lleoliadau priodol a hygyrch yn y gymuned.
- Adolygu a gwella mynediad ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Phobl Sy'n Gadael Gofal yn Sir Ddinbych i gael cyfle i gymryd rhan mewn lleoliad gwaith a/neu gynllun hyfforddeiaeth gydag awdurdod lleol
- Datblygu lleoliad preswyl 2/3 diwrnod o hyd ar gyfer cyfanswm o 40 o blant sy'n derbyn gofal a fydd yn cynnwys Sgiliau Bywyd e.e. coginio, cyllidebu/cyllid, cyflogaeth, iechyd meddwl a rhyngweithio/sgiliau cymdeithasol
- Gweithredu unrhyw ddysgu a/neu argymhellion o arolwg diweddar Arolygiaeth Gofal Cymru
- Cyflwyno 4 Rhaglen Trawsnewid Gogledd Cymru

Nicola Stubbins  
Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a Chyfarwyddwr Statudol  
Gwasanaethau Cymdeithasol





## Adran 3. Sut Mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?

### Adborth gan Bobl sy'n Defnyddio ein Gwasanaethau

O fewn Sir Dinbych, mae'r dinesydd yn dal i fod wrth wraidd ein gwasanaethau ac ymdrechwn i ymgysylltu â phobl ym mhle bynnag y gallwn wrth lunio, datblygu ac adolygu gwasanaethau. Defnyddiwn sawl dull. O sicrhau bod y dinesydd yn ymgysylltu'n llawn wrth gytuno ar anghenion gofal a chymorth, drwodd iddyn nhw yn ein helpu i recriwtio ein staff a darparu adborth, naill ail drwy ein gweithdrefnau canmoliaeth a chwynion, ein harolwg blynyddol neu drwy drafodaeth gyffredinol ag ystod eang o staff ac aelodau etholedig.

Ers 1<sup>af</sup> Ebrill 2018, gwnaed 11,000 o atgyfeiriadau am wybodaeth cyngor a chymorth i'n Pwynt Mynediad Sengl (SPoA). Ar ôl cysylltu â'r SPoA am wybodaeth, cyngor a chymorth, derbyniodd 2300 o ddinasyddion asesiad, a arweiniodd at 25% o ddinasyddion wedyn yn derbyn pecyn o ofal a chymorth.

### Arolwg Dweud Eich Dweud

Yn ystod hydref 2018, cwblhawyd ein Harolwg Dweud Eich Dweud blynyddol. Roedd 266 o ddinasyddion a oedd wedi derbyn cymorth gan ein Gwasanaethau Oedolion wedi cwblhau a dychwelyd yr holiadur. Ymatebodd 24 o blant/pobl ifanc a 41 o rieni o'n Gwasanaethau Plant.

Rydym yn falch o weld ein bod wedi cael ymatebion mwy cadarnhaol, o gymharu â'n harolwg yn 2017, ar gyfer gofaluwr, a oedd yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch, a'u bod yn teimlo'n ddiogel. Fodd bynnag, gwelsom ostyngiad yn nifer y gofaluwr a oedd yn hapus gyda'r cymorth a gawsant ac sy'n teimlo eu bod yn cael cymorth i barhau i ofalu.

O ran oedolion sydd wedi derbyn gwasanaethau, rydym yn falch o gael adrodd y gwelsom nifer uwch o oedolion yn dweud eu bod yn hapus ag ansawdd eu bywyd a'u bod yn teimlo'n ddiogel, yn ogystal â theimlo eu bod yn cael y wybodaeth a'r cyngor iawn. Fodd bynnag, gwelsom ostyngiad yn nifer yr oedolion hynny a oedd yn gwybod pwy i gysylltu â nhw ynghylch eu gofal.

Dywedodd 95% o rieni eu bod yn chwarae rhan weithredol ym mhob penderfyniad am sut yr oedd gofal a chymorth eu plentyn/plant yn cael eu darparu.

O'r rhai 16 /17 mlwydd oed a gymerodd ran yn yr arolwg, dywedodd 100% eu bod wedi derbyn help, cyngor a chymorth i'w paratoi ar gyfer tyfu'n oedolion.

Fodd bynnag, dim ond 71% o blant yn yr arolwg a ddywedodd eu bod yn hapus gyda'r bobl roeddent yn byw gyda nhw.

Rydym wrthi'n datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag agweddau'r arolwg sy'n dangos bod angen i ni wella. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, derbyniwyd adborth gennym yn ddiweddar ar ein gwasanaethau gan ddau ofalwr yn Sir Ddinbych - gweler eu cyfweiliad ar Dudalen 22.

### Cwynion, Sylwadau, Pryderon a Chanmoliaeth

Yn ystod 2018/19, cofnodwyd 51 cwyn gennym – 34 a oedd yn ymwneud â gwasanaethau i oedolion a 17 ynghylch gwasanaethau i blant. Mae hyn ychydig yn uwch na hynny yn 2017/18 (47 cwyn) ac yn is na 2016/17 (68 cwyn). Derbyniwyd nifer uwch gennym o gwynion ynghylch Atal Digartrefedd, a'r categori uchaf o gwynion yn gyffredinol oedd ynghylch staff. Deliwyd â phob cwyn o fewn terfynau amser disgwylidig ac fe gafodd 55% eu cadarnhau neu eu cadarnhau yn rhannol. Yn ogystal, deliwyd â 52 o bryderon gennym (91 y llynedd) y bu modd i ni eu datrys yn anffurfiol.

O'r pryderon hyn, rydym wedi ystyried lle mae angen i ni wella gwasanaethau a dysgu o'r adborth. O ganlyniad rydym wedi darparu hyfforddiant i staff y Gwasanaethau Oedolion a Phlant er mwyn iddynt ennill rhagor o sgiliau i allu rheoli disgwyliadau dinasyddion o'r Gwasanaeth, ynghyd â deall sut i ddelio â gwrthdaro. Roedd tua 24 o staff wedi mynychu sesiynau yn Ch4, ac mae sesiynau wedi'u cynllunio drwy gydol 2019/20.

Mae un gŵyn yn ystod 2018/19 wedi canfod gwelliant i wasanaeth/gwers a ddysgwyd, sef yr angen i sicrhau bod Is-swyddog yn cael ei adnabod ar ddechrau'r broses o ymchwilio i'r gŵyn, fel rhywun i droi atynt pe bai unrhyw anawsterau'n codi.

Dros y 12 mis diwethaf, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a dderbyniwyd, gan gynyddu o 222 yn 2017/18 i 324.

Nodir isod yr amryw ddulliau a ddefnyddiwyd gennym i ymgysylltu â dinasyddion, er mwyn helpu i lunio ein gwasanaethau o fewn y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a'r Gwasanaethau Plant ac Addysg –

- **CESI (Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol)** - yn ystod 2018/19, ymgysylltodd y gwasanaeth hwn â dros 2500 o ddinasyddion i ddarparu ystod o gyfarpar a thechnoleg gynorthwyol. Trwy ein proses adborth ar gyfer dinasyddion, roedd 100% o'r adborth a dderbyniwyd yn gadarnhaol.

Cariwch ymlaen y ffordd  
 rydych yn mynd ac fe ddylai  
 pawb ei werthfawrogi. Dwi'n  
 meddwl fod hon yn  
 vmyrraeth o'r radd flaenaf

Mae wedi gwneud  
 gwahaniaeth i'r ddau ohonom,  
 gan fy mod bellach yn eithaf  
 hyderus i fynd allan a gadael  
 fy ngwraig ar ei phen ei hun

- **Tîm Atal Digartrefedd** - mae cyd-gynhyrchu wedi'i wreiddio bellach yn ein holl waith o ran datblygu gwasanaethau. Buom yn gweithio gyda dinasyddion a staff prosiectau i ddatblygu a chyflenwi ein Digwyddiad Atal Digartrefedd cyntaf, 'Homes and Hopes', a oedd wedi'i gyd-gynhyrchu. Cafwyd presenoldeb eithriadol o dda o blith dinasyddion a staff, gyda phob sesiwn o'r diwrnod yn cael pawb i weithio gyda'i gilydd i ddangos beth sy'n bwysig, ac i godi ymwybyddiaeth o'r prif faterion o ran atal digartrefedd. Fe gafodd yr hyn a ddysgwyd drwy'r gwaith cynllunio a'r digwyddiad ei fwydo i mewn i Gynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl/Atal Digartrefedd 2019-22. Mae dinasyddion yn chwarae rhan hefyd mewn datblygu dulliau o godi ymwybyddiaeth / hyfforddiant staff, gan ganolbwyntio ar ddeall amrywiaeth, empathi a thosturi o fewn digartrefedd.

Ymgysylltwyd â dinasyddion mewn dulliau eraill hefyd er mwyn llywio cynnwys y Cynllun hwn, gan gynnwys drwy nifer o ymarferion ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol. Mae adborth gan ddinasyddion wedi helpu'r Tîm Atal Digartrefedd i feddwl am sut maent yn ymarfer ac i helpu staff i gydnabod effaith eu hymarfer. Mae hyn wedi cynnwys ymrwymiad a wnaed i ddatblygu gwaith papur/prosesau o fewn y gwasanaeth atal digartrefedd sydd wedi'u llywio mwy o safbwynt seicolegol. Un canlyniad i hyn oedd bod y ffurflen asesu statudol wedi'i hadolygu gan grŵp o ddinasyddion a staff rheng flaen, ac erbyn hyn mae sgwrs sy'n canolbwyntio ar 'beth sy'n bwysig' wedi cymryd ei lle.



Roedd dinasyddion wedi chwarae sylweddol yn ein hadolygiad diweddar o lety argyfwng dros dro drwy Imogen Blood & Associates, ac mae camau ar waith ar hyn o bryd i weithredu ar yr argymhellion o'r adroddiad hwnnw.

- **Anableddau dysgu** – rydym yn coladu'r canfyddiadau o bob adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac o hyn yn penderfynu ar y modd gorau o ymateb ac yn datblygu cynllun gweithredu. Gwneir hyn ar y cyd â dinasyddion.

Rydym wedi rhoi prosiect galluogi ar waith ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu, rhai sydd ag Anhwylder ar y Sbectwm Awstistig, a rhai sydd Wedi Cael Niwed i'r Ymennydd. Nod y gwasanaeth hwn yw datblygu sgiliau unigol er mwyn hybu annibyniaeth a lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau statudol.

Rydym yn gweithio ochr yn ochr â Therapydd Galwedigaethol i gwblhau asesiad gweithredol ac yna'n canfod pa gymorth a fyddir i gyflawni canlyniad penodol. Rydym wedyn yn datblygu cynllun gweithredu personol ar gyfer yr unigolyn, gan leihau dwyster y cymorth fel y mae sgiliau'n datblygu.

Rydym yn parhau i gyd-gynhyrchu dulliau newydd gan gynnwys defnyddio cyllidebau cymorth personol, prosiectau byw â chymorth, ac wrthi'n datblygu modelau cymorth newydd fel darparu eu drws ffrynt eu hunain i unigolion, allgymorth ac ati.

Yn seiliedig ar adborth gan ddinasyddion a'u teuluoedd, rydym wedi parhau i ddatblygu'r ymagwedd hyb tuag at roi cymorth i ddinasyddion, partneriaid a phartneriaid eraill. Mae gennym dri hyb sy'n mynd i'r afael â'r angen am asesiadau amlddisgyblaethol ar gyfer atgyfeiriadau newydd, dinasyddion presennol a'r rheiny sy'n byw yn y gymuned, ynghyd â'u hasiantaethau cymorth a'u gofawyr.

Rydym yn parhau i ddatblygu gwasanaethau mewn ymateb i ganfyddiadau'r adolygiadau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ac yn adolygu'r cynllun gweithredu "gweithio gyda'n gilydd er mwyn newid" ym mhob cyfarfod Cynllun sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, sef grŵp a fynyddir gan bartneriaid a dinasyddion o amryw gefndiroedd.

Mae'r grŵp a elwid yn flaenorol y Grŵp Cynllunio Strategol wedi'i ailennu fel Grŵp Cyfranogi Sir Ddinbych, ac mae pwrpas y grŵp hwnnw wedi cael ei ailddiffinio. Yn y dyfodol, bydd y grŵp yn edrych ar faterion penodol ac yn bwydo i mewn i ddatblygiadau ar y sail honno. Bydd yr agenda'n cael ei chynllunio ymlaen llaw a chaniateir amser i gynllunio digwyddiadau cyfranogi. Mae'r digwyddiad cyntaf yn bwriadu edrych ar yr adolygiad o wasanaethau sy'n darparu cyfleoedd gwaith.

Mae Miss A yn bwriadu aros yn y Premier Inn y noson cyn ei phen-blwydd er mwyn tretio ei hun a hefyd i brofi sut beth ydy byw yn annihvnnol.

Rydym wedi ymrwymo unigolion a'u teuluoedd mewn datblygu manylebau gwasanaethau a chwestiynau ar gyfer tendrau ar gyfer cynlluniau byw yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag unigolion, staff a theuluoedd i bennu canlyniadau pwysig.

- **Gofalwyr** - Rydym wedi sefydlu prosiect corfforaethol 'Cefnogi Gofalwyr yn Sir Ddinbych' gyda'r amcan cyffredinol o sicrhau bod pob gofalwr yn Sir Ddinbych yn cael ei gefnogi'n dda. Mae'r prosiect ar gyfer pob oedran, gan gynnwys Gofalwyr sy'n Rhieni a Gofalwyr Ifanc. Mae blaenoriaethau'r cynlluniau gweithredu wedi deillio'n uniongyrchol o ymarfer sgwrs sirol, canlyniadau arolygon gan ofalwyr teulu sy'n oedolion ynghyd â'n Harolwg Dweud Eich Dweud blynnyddol.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn sefydlu prosiect ar wefan Cyngor Sir Ddinbych i hwyluso ymgysylltu fel rhan o Brosiect Cefnogi Gofalwyr sy'n Oedolion. Y nod yw casglu barnau a sylwadau gan ofalwyr sydd â diddordeb mewn perthynas ag amcanion y prosiect, er mwyn helpu i lunio camau gweithredu i'r dyfodol.

Dathlwyd Wythnos y Gofalwyr (Mehefin), Diwrnod Hawliau Gofalwyr (Tachwedd) a Gofalwyr Ifanc (Ionawr) drwy hyrwyddo digwyddiadau mewn cysylltiad â sefydliadau sy'n bartneriaid. Ceir grŵp strategaeth gofalwyr gweithredol, sydd wedi'i hen sefydlu yn Sir Ddinbych, ac mae gofalwyr sy'n byw yn Sir Ddinbych hefyd yn chwarae rhan ar lefel ranbarthol, fel rhan o'r grŵp cyfeirio gofalwyr sy'n bwydo i mewn i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Gan weithio'n agos ag Age Connects, rydym wedi gofyn i bobl hŷn beth sy'n bwysig iddyn nhw ac wedi ymateb i'r ceisiadau hyn. Mewn trafodaethau o fewn fforymau o gwmpas y sir, dywedodd gofalwyr wrthym nad yw gofal seibiant traddodiadol yn gweithio iddyn nhw. Mae arnynt eisiau'r cyfle i wneud y gweithgareddau hamdden yr oeddynt yn arfer eu mwynhau, mewn lle diogel, er mwyn rhoi seibiant iddyn nhw.



Y gweithgaredd mwyaf cyffredin yr oedd gofalwyr yn ei fethu oedd garddio. O ganlyniad, mae Age Connects wedi sefydlu 'Perennials' lle mae gofalwyr yn gallu mynd gyda'r unigolyn y maent yn gofalu amdanynt i ardd yn safle manwerthu Tweedmill yn Llanellwyr. Tra byddant yno, gall y gofalwyr gymryd seibiant i gael coffi neu fyrbryd a chael cyfle i rannu profiadau â gofalwyr eraill.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, bu gofalwr lleol yn ymwneud â recriwtio'r Swyddog Comisiynu newydd ar gyfer Gofalwyr, a bu Gofalwr o Sir Ddinbych yn rhan o brosiect 'Mesur y Mynydd' Llywodraeth Cymru, a fydd yn cael ei lansio yn ystod 2019.

\*Prosiect Cymru-gyfan yw'r prosiect 'Mesur y mynydd' sy'n gwerthuso effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n gydweithrediad rhwng y sector cyhoeddus, y trydydd sector a phobl sy'n cael eu heffeithio gan weithrediad y Ddeddf.

Wrth symud ymlaen, rydym wedi archwilio cyfranogiad dinasyddion yn ystod ein fforymau cydweithwyr Gwaith Cymdeithasol, ac wedi canfod gofalwyr eraill a fydd efallai'n hapus i'n cefnogi yn y dyfodol. Rydym oll yn cytuno bod eu mewnbwn yn hanfodol os yw'r cymorth a ddarparwn am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r dinasyddion a'r gofalwyr a gefnogir gennym.

- **Pwyntiau Siarad** – Ar 7fed Mawrth 2019, cynhaliodd Pwyntiau Siarad Sir Ddinbych ei ddigwyddiad Oedi ac Adolygu a roddodd y cyfle i staff, dinasyddion a sefydliadau trydydd sector rannu eu syniadau a'u profiadau i helpu i gynllunio cam nesaf y daith tuag at gyflenwi gwasanaeth sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn, sy'n seiliedig yn y gymuned, ar gyfer dinasyddion, mewn partneriaeth â'n cymunedau lleol.



Wedi'i gefnogi gan y Tîm Datblygu Cynhwysiant Cenedlaethol (NDTi), roedd y pwyslais ar dreulio'r diwrnod yn meddwl am ba mor bell yr ydym wedi dod o ran cyflawni ein nodau, ynghyd ag archwilio llwyddiannau a heriau a datblygu cynllun clir ar gyfer y cyfeiriad rydym yn mynd iddo.

Yn ystod y diwrnod, cawsom ddiweddariad ar statws presennol gwaith Pwyntiau Siarad/Sgwrs a Arweinir gan y Gymuned ('Community Led Conversation' (CLC)) yn Sir Ddinbych, cawsom ystyried pa mor bell rydym wedi mynd o ran cyflawni ein cynllun gwreiddiol, ynghyd ag archwilio llwyddiannau a heriau, a meddwl am beth mae hyn yn ei ddweud wrthym, wrth ddechrau ar y cam nesaf gyda'n gilydd.

- **Pobl Hŷn** – ble bynnag y bo modd, byddwn yn annog dinasyddion i gymryd rhan ac yn ceisio adborth ganddynt, yn enwedig y rheiny sy'n defnyddio neu wedi defnyddio ein gwasanaeth. Mae'r ymgysylltu â'r adborth cyson hwn yn ein galluogi i wella ein gwasanaethau'n barhaus, er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion ein dinasyddion a bod preswylwyr Sir Ddinbych yn rhan o lunio gwasanaethau.
- Bu modd i ni'n ddiweddar gynnwys dinasyddion lleol yn y gwaith o recriwtio ar gyfer swyddi newydd Gweithwyr Cymorth Dementia ynghyd â hyfforddi staff.

"Yn fy marn i, daeth Joyce a Jim â dimensiwn newydd i'r broses gyfweld, gyda'u cyfoeth o wybodaeth am brofiad bywyd go iawn. Darparodd broses ddysgu 2 ffordd ar gyfer y panel, o ran dysgu rhagor am y profiad o fyw gyda dementia cynnar, ac o ran Joyce a Jim, dysgu rhagor am ein prosesau yn y gwasanaethau cymdeithasol a chyfluoedd yn y gymuned. Roeddynt yn wych yn y modd yr oeddynt yn helpu sgiliau deallusrwydd emosiynol ein cyfweledigion. Roedd yn ddau ddiwrnod hir, ar ôl cael ymateb ardderchog i'n hysbyseb. Roedd Joyce a Jim wedi llwyddo i gynnal ein hysbryd gyda'u naratifau a'u hiwmor, a hyd yn oed wedi dod â chacennau i ni eu mwynhau gyda'n coffi!" Dirprwy Reolwr Tîm, Tîm Adnoddau Cymunedol Prestatyn



- **Gwasanaethau Plant** - Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi adolygu a diweddarau'r holl ddogfennau ymgynghori, sy'n ein caniatáu i sicrhau ein bod yn cipio lleisiau plant a phobl ifanc mewn Adolygiadau LAC a Chynadleddau Amddiffyn Plant. Anogir y bobl ifanc i gwblhau'r ffurflenni ymgynghori cyn Cynadleddau Amddiffyn Plant ac Adolygiadau LAC, yn enwedig os nad ydynt eisiau eu mynychu. Mae hyn yn galluogi aelodau cynadleddau i glywed pethau o bersbectif yr unigolyn ifanc, ac weithiau gall llais yr unigolyn ifanc fod ar goll wrth drafod pryderon.

Defnyddiwn arolygon penodol i geisio barnau plant, pobl ifanc, rhieni neu ofalwyr sydd wedi derbyn cymorth gan ein gwasanaeth, mewn perthynas â'r effaith a gafodd y cymorth, pa ran a chwaraewyd ganddynt ac unrhyw awgrymiadau o ran gwelliannau, mae hyn yn cynnwys diogelu.

- **Clwb KIC (Fforwm Plant sy'n Derbyn Gofal 'Kids in Care')** – ar gyfer pobl ifanc o 8 i 15 mlwydd oed sy'n derbyn gofal, sy'n byw gyda gofalwyr maeth, er mwyn iddynt allu cyfarfod gyda'i gilydd, rhannu eu profiadau, dweud beth sy'n mynd yn dda a'r hyn yr hoffent ei newid. Yr adborth gan aelodau yw eu bod yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi'r sesiynau.

Yn ystod y flwyddyn, mae gweithgareddau Clwb KIC wedi cynnwys Gweithdy Celf gydag artist lleol, Sesiwn Dawnsio Stryd, a hwyluswyd sesiwn ar Hawliau plant gan Swyddog Datblygu o Plant yng Nghymru.

Mae Clwb Rotari lleol wedi cyflwyno siec i'r clwb i helpu i ariannu eu gweithgareddau haf, a mynychodd y Swyddog Datblygu Busnes un o'u cyfarfodydd i ddiolch iddynt am eu cyfraniad caredig, ac i ddangos iddynt tuag at beth yr aeth eu harian.

Mynychodd cynrychiolwyr o Arolygiaeth Gofal Cymru Fore Coffi'r Gofalwyr Maeth ym mis Medi 2018, ynghyd â sesiwn anffurfiol gyda 5 aelod o'r Clwb KIC i gael eu barnau a'u profiadau o Wasanaethau Maethu, ac ynghylch y gofal a'r cymorth a dderbyniwyd ganddynt. Bydd eu barnau, ynghyd â barnau pobl ifanc a gofalwyr eraill yng Nghymru, yn cael eu cynnwys mewn adroddiad cenedlaethol a gyhoeddir yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Rydym yn parhau i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a phobl ifanc yn ein proses recriwtio, gan gynnwys cyfweiliadau eleni ar gyfer y tendr eiriolaeth a chyfweiliadau ar gyfer Cydlynnydd Llwybr Cadarnhaol Pobl Ifanc.

## Adran 4. Hybu a Gwella Llesiant y Bobl Rydym yn eu Helpu

### a) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.

#### Dyma beth roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud

- Helpu ein dinasyddion i gael mwy o ddewis a rheolaeth dros y pecynnau gofal a chymorth i'w helpu i sicrhau'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt, drwy gynnig ein model Cyllideb Cymorth i ddinasyddion sy'n derbyn pecyn gofal a chymorth newydd.
- Ymgysylltu ag oedolion a gofalwyr sy'n derbyn gwasanaethau ar hyn o bryd drwy fforwm cymheiriaid i'n helpu i lunio gwasanaethau a chanolbwyntio ar y meysydd yn ein harolwg Dweud eich Dweud blynyddol lle nad ydym wedi cael sgôr gystal ag y byddem wedi dymuno e.e. 'Gallaf wneud y pethau sy'n bwysig i mi'
- Parhau i ddatblygu ein Pwynt Mynediad Sengl (SPoA) gan ganolbwyntio ar: sefydlu fframwaith effeithiol i sicrhau ansawdd; cydweithio'n well â gwasanaethau ieuchyd a gofal cymdeithasol mewn ysbytai ac yn gymuned; a gwneud y SPoA yn fwy hygyrch er mwyn helpu practisau Meddygon Teulu a hyrwyddo negeseuon am ieuchyd y cyhoedd.
- Byddwn yn cyflwyno'r holl dempledi newydd a gytunwyd ar lefel Ranbarthol ar gyfer asesu a chynlluniau gofal a chymorth ac yn sefydlu llwybrau gwasanaeth newydd yn ein systemau presennol ar gyfer rheoli achosion mewn gwasanaethau Plant.
- Tua diwedd 2017 roeddem wedi dechrau ar brosiect i gynnwys templedi newydd ar gyfer atgyfeirio, asesu a chynlluniau gofal a chymorth yn ein cronfa ddata bresennol ar gyfer rheoli achosion er mwyn ategu'r diwylliant a rennir o gydweithio â phobl i gyd-gynhyrchu atebion i'w problemau. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn yn ystod y 12 mis nesaf.
- Bydd gwasanaethau plant yn cydymffurfio'n llwyr â'r canllawiau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) gan greu cyd-ddealltwriaeth rhwng yr holl asiantaethau sy'n bartneriaid i ni.

#### Dyma beth rydym wedi'i wneud a'i gyflawni

|                                                                                                                                                                                                                                    |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Teimlai 84% o oedolion eu bod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth                                                                                                                                                     |
| Dywedodd 77% o ofalwyr eu bod yn chwarae rhan mewn penderfyniadau am y gofal a'r cymorth ar gyfer yr un y maent yn gofalu amdanynt, ond dim ond 69% sy'n teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau am y cymorth ar eu cyfer eu hunain |
| Dywedodd 82% o blant a phobl ifanc bod pobl wedi gwrando ar eu barnau am y gofal a'r cymorth a dderbynnir ganddynt                                                                                                                 |
| Mae 96% o blant a phobl ifanc yn gwybod pwy i siarad â nhw am y gofal a'r cymorth a dderbynnir ganddynt                                                                                                                            |
| Roedd 88% o blant wedi cael cwblhau eu hasesiadau o fewn terfynau amser statudol                                                                                                                                                   |

Trwy gydol 2018/2019 rydym wedi parhau i roi cymorth i Ddinasyddion gael mwy o ddewis a rheolaeth drwy hyrwyddo Cyllidebau Cymorth a Thaliadau Uniongyrchol, gydag ystod o opsiynau, yn dibynnu ar faint o ran y dymuna'r unigolyn ei gael mewn cynllunio a rheoli. Enghraifft o'r gwahaniaeth y gall cyllideb gymorth ei wneud yw stori Martha a'i merch.

Rydym yn gwbl ymrwymedig i gyflwyno Cyllidebau Cymorth fel ein cynnig diodyn, a dyna pam, mewn ymateb i staff, rydym wedi cychwyn adolygiad o'r prosesau a'r arferion sy'n ategu'r gwaith hwn. Rydym eisiau i staff fod yn hyderus wrth gynnal Cyllidebau Cymorth, ond yn cydnabod bod rhai o'r prosesau presennol yn heriol.

Aethom ati'r llynedd i ofyn i bobl a oedd wedi ymateb i'n harolwg Dweud Eich Dweud a fyddent yn hoffi cymryd rhan mewn grŵp ymgysylltu, ond nid oedd digon wedi derbyn y cynnig er mwyn gyrru'r syniad hwn yn ei flaen. Yn lle hynny felly, rydym wedi ymgysylltu â fforymau presennol i geisio canfod meysydd allweddol i weithio arnynt. Mae'r ymgysylltiad hwn yn parhau.

Mae'r **Un Pwynt Mynediad(SPoA)** wedi parhau i ddatblygu ac addasu drwy gydol 2018, a bydd hyn yn parhau fel y mae ein Timau Adnoddau Cymunedol yn cyd-leoli ac yn datblygu arferion gweithio integredig fel cyflwyno pwyntiau atgyfeirio a rennir. Bydd y SPoA yn parhau fel ein pwynt cyswllt cyntaf i ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i ddinasyddion Sir Ddinbych. Yn Ionawr 2019, gwnaethom benderfyniad i gryfhau'r cysylltiadau rhwng SPoA a'r Tîm Cam-i-Lawr, sef tîm sirol sy'n canolbwyntio ar ryddhau pobl o'r ysbyty. Rydym o'r farn y bydd y model hwn, sy'n canolbwyntio ar Wybodaeth, Cyngor, Cymorth, atal, cydlynw a hwyluso rhyddhau, yn cryfhau'r gwasanaeth a ddarperir gennym.



Eleni, rydym hefyd wedi sefydlu pwynt Gwybodaeth Llesiant yn Ysbyty Glan Clwyd, sy'n cael cymorth gan ein Cydlynnydd Llesiant SPoA. Mae'n golygu y gall ein cydweithwyr yn yr ysbyty gyfeirio cleifion ymlaen at y Pwynt Gwybodaeth, gan gydnabod bod \*presgripsiynu cymdeithasol o fudd i'r claf. Mae cael y pwynt gwybodaeth yn cryfhau ac yn cefnogi gwaith y Gwasanaeth Cyngor a Chefnogaeth i Gleifion Ysbyty (PAS) sy'n darparu gwybodaeth a chymorth i gleifion a'u hymwelwyr. Bydd PAS hefyd yn gallu canfod cleifion a gaiff fudd o'r Pwynt Llesiant ac yn eu cyfeirio ymlaen fel y bo angen.

\* Mae presgripsiynu cymdeithasol yn ffordd i weithwyr iechyd proffesiynol atgyfeirio cleifion i gael cymorth yn y gymuned er mwyn gwella eu hiechyd, eu lles a'u lles cymdeithasol.

I wella sicrwydd ansawdd, mae adolygiad cadarn o weithrediadau SPoA wedi cychwyn, er mwyn cydnabod y cynnydd yn y gwaith sy'n ofynnol drwy SPoA. Bydd rhan o'r adolygiad hwn yn cynnwys sicrhau bod gennym fodel gweithredol effeithlon ac effeithiol a bod ein Technoleg Gwybodaeth yn ateb y gofyn. Rydym yn parhau i ymgysylltu â Meddygon Teulu ledled y sir, sydd wedi gweld ein Llyw-wyr Cymunedol yn cynyddu eu presenoldeb mewn practisau Meddygon Teulu, a Meddygon Teulu'n gwneud apwyntiadau ar gyfer cleifion yn ein Pwyntiau Siarad yn y gymuned.

Eiriolaeth - Mae atgyfeiriadau cyffredinol i'n gwasanaethau eiriolaeth, yn ystod y 12 mis diwethaf, wedi parhau i fod fwy neu lai'n gyson. Rydym wedi buddsoddi mewn mentrau i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau hyn a beth y gallant ei gynnig, gan weithio gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn a phrosiect eiriolaeth y Rhaglen Edau Euraid. Cawsom ychydig o atgyfeiriadau ar gyfer rhai o dan 65, ond mae'r gwasanaeth hwn wedi'i osod ar dendr.

Oedolyn ifanc mewn prosiect cymunedol preswyl, yn byw ar y cyd ag eraill. Fe'i cefnogwyd i leisio ei ddymuniadau i gael byw yn fwy annibynnol ai awydd i feithrin ei sgiliau bywyd. Y canlyniad, gyda chymorth gan yr eiriolwr, yw ei fod bellach yn byw mewn lleoliad sy'n golygu ei fod yn gyfrifol am ei denantiaeth a'i gartref ei hun.

Mae'r Gwasanaethau Plant wedi llwyddo i weithredu ystod o ddogfennaeth sydd wedi'u cytuno'n rhanbarthol, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, h.y. rydym wedi parhau i weithio gydag asiantaethau sy'n bartneriaid mewn amryw fforymau i sicrhau dealltwriaeth a rennir ac ymroddiad i ysbryd y Ddeddf.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi integreiddio Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn un gwasanaeth o dan dîm rheoli newydd. Rydym yn parhau i dderbyn adborth cadarnhaol ynghylch cyfathrebu rhwng y gwasanaethau a gomisiynir gan Teuluoedd yn Gyntaf a'r teuluoedd a gefnogir ganddynt.

Mae ymagwedd y 'tîm o amgylch y teulu', sy'n hyrwyddo cydweithredu a chyd-gynhyrchu i ddatrys problemau a hybu gwydnwch, wedi'i hyrwyddo ar draws y timau ymyrraeth gynnar ac ataliol, ac wedi arwain at 75 y cant o achosion yn cau gyda chanlyniad cadarnhaol – gwelliant o 10% ar 2017/18.

## Dyma beth sydd gennym ar ôl i'w wneud

|                                                                                     |
|-------------------------------------------------------------------------------------|
| Mae 84% o oedolion yn gwybod pwy i gysylltu â nhw ynghylch eu gofal – 87% y llynedd |
|-------------------------------------------------------------------------------------|

|                                                                                     |
|-------------------------------------------------------------------------------------|
| Mae 84% o oedolion yn gwybod pwy i gysylltu â nhw ynghylch eu gofal – 87% y llynedd |
|-------------------------------------------------------------------------------------|

- Edrych ar ffyrdd arloesol o sicrhau bod ein dinasyddion yn gwybod â phwy i gysylltu am eu gofal a sut i gysylltu â Un Pwynt Mynediad (SpoA).
- Cwblhau ein hadolygiad o'r gwaith o gyflwyno Cyllidebau Cymorth; datblygu prosesau a chanllawiau o'r gwersi a ddysgwyd; gwreiddio ymagwedd gadarnhaol o ran cymryd risgiau; a gweithio'n agos gyda'n partneriaid a'n darparwyr i sicrhau bod ein dinasyddion yn cael dewis a rheolaeth lawn dros eu hanghenion gofal a chymorth.
- Byddwn yn parhau i addasu a gwella'r SPoA yn unol â datblygu Timau Adnoddau Cymunedol, ynghyd â sicrhau bod gennym dîm hyfforddedig a chymwys i gyflenwi Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth o ansawdd dda i ddinasyddion Sir Ddinbych.
- Bydd y Gwasanaethau Plant yn parhau gyda'r gwaith o weithredu arferion a phrosesau diwygiedig yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Yn ystod y 12 mis nesaf, canolbwyntir ar anghenion hyfforddi, gan gynnwys sgysiaid cydweithredol ac asesu anghenion cymwys, sef y flaenoriaeth ar gyfer 2019.
- Hefyd, mae'r Gwasanaethau Plant wrthi'n adolygu ystod o swyddogaethau gweithredol i sicrhau gwerth am arian a systemau mwy darbodus. Mae gan y prosiectau unigol hyn eu cylchoedd gorchwyl eu hunain ac fe'u cadeirir gan swyddogion o ar draws y gwasanaeth.



## b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u llesiant emosiynol.

### Dyma beth roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud

- Ar ôl datblygu tîm adnoddau cymunedol wedi'i gydleoli yn y Rhyl yn ystod 2017-18, byddwn yn mynd ati i sefydlu 3 thîm adnoddau cymunedol integredig ychwanegol ledled Sir Ddinbych ar y cyd â'n cydweithwyr yn BIPBC er mwyn darparu cymorth iechyd a gofal cymdeithasol di-dor i oedolion Sir Ddinbych.
- Byddwn yn cwblhau adolygiad o'r Gwasanaethau Dydd Oedolion yn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl i sicrhau eu bod yn addas i'w diben ac yn cael eu moderneiddio'n unol â deddfwriaeth newydd.
- Byddwn yn parhau â'r cynllun i ddatblygu tai â gofal ychwanegol yn Ninbych a Rhuthun ac i osod ein darpariaeth fewnol ar gontractau allanol, yn cynnwys Cartref Preswyl Dolwen.
- Mewn ymateb i'r Rhaglen Drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol, rydym ar hyn o bryd yn adolygu ein strwythur ar gyfer cynorthwyo plant sydd ag anghenion cymhleth o ganlyniad i anabledd neu afiechyd. Byddwn yn datblygu tîm newydd sy'n cynnwys staff o wasanaethau gofal cymdeithasol, ymyrraeth gynnar, cymorth ar gyfer pontio a byw'n annibynnol a'r Gwasanaeth Addysg statudol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, er mwyn darparu ymateb integredig i gynorthwyo teuluoedd drwy gydol y flwyddyn ym mywyd y cartref, yr ysgol a chymdeithas.
- Adolygu ein strwythur ar gyfer cynorthwyo plant sydd ag anghenion cymhleth o ganlyniad i anabledd neu afiechyd er mwyn darparu ymateb mwy integredig i deuluoedd a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

### Dyma beth rydym wedi'i wneud a'i gyflawni

|                                                                                                                                                                               |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Dywedodd 86% o oedolion eu bod yn byw mewn cartref sy'n hybu eu llesiant orau – 82% y llynedd                                                                                 |
| Roedd 89% o oedolion yn hapus gyda'u gofal a'u cymorth – 87% y llynedd                                                                                                        |
| Oedran cyfartalog yr oedolion sy'n mynd i mewn i gartrefi gofal <b>preswyl</b> (ac eithrio nyrsio) yw 83 erbyn hyn, o gymharu ag 88 ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ddiwethaf |
| O ran 62% o oedolion sy'n cwblhau cyfnod o Ailalluogi, maent yn byw gyda phhecyn gofal llai neu heb becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach                              |
| Roedd 43% o Blant sy'n Derbyn Gofal wedi'u cofrestru gyda deintydd o fewn 3 mis o ddechrau Derbyn Gofal                                                                       |
| Roedd 100% o Blant sy'n Derbyn Gofal wedi'u cofrestru â Meddyg Teulu                                                                                                          |

Rydym wedi sefydlu 2 Dîm Adnoddau Cymunedol yn Sir Ddinbych ac mae gennym 2 arall yn dod y weithredol yn ystod 2019/2020. Rydym bellach ar y trywydd iawn o ran cyflawni ein gweledigaeth ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar gyfer darparu gwasanaethau cymunedol cynhwysfawr, hyblyg ac ymatebol.

Mae'r Timau Adnoddau Cymunedol yn cynnwys Nyrsys Ardal, Nyrsys Cymunedol, Nyrsys Arbenigol, Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion, Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol a Llyw-wyr Cymunedol.



O ran dinasyddion Sir Ddinbych, mae bodolaeth y Timau Adnoddau Cymunedol yn golygu y byddant yn derbyn cymorth iechyd a gofal cymdeithasol di-dor. Yn dilyn asesiad cychwynnol a deall 'beth sy'n bwysig' i'r unigolyn, bydd y gweithiwr proffesiynol iawn yn rhoi cymorth ar yr adeg iawn er mwyn cadw ein dinasyddion yn byw'n annibynnol yn eu cartrefi am gyn hired ag y bo modd.

Yn ystod 2018, cwblhawyd adolygiad gennym o'n Canolfan Ddydd Iechyd Meddwl yn Ninbych, a arweiniodd at ei chau. Mae'r nifer fechan o unigolion a oedd yn arfer mynychu'r ganolfan bellach yn defnyddio amryw adnoddau yn y gymuned, Rydym hefyd wedi cychwyn adolygiad o'n gwasanaethau dydd yn y Rhyl i sicrhau ein bod yn cyflenwi gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ein dinasyddion.

Mae Awel y Dyffryn, y cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol yn Ninbych, yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd, a dylid fod wedi'i gwblhau yn hydref 2020. Bydd hwn yn darparu 71 uned o lety – 51 uned o dai gofal ychwanegol i bobl hŷn, 12 uned o lety anghenion cyffredinol i bobl hŷn ac 8 uned o dai â chymorth ar gyfer oedolion ag anableddau cymhleth.

Mae cydweithio'n parhau gyda Grŵp Cynefin o ran datblygu Llys Awelon yn Rhuthun i gynyddu'r capasiti o 21 uned o lety gofal ychwanegol i fwy na 50 uned.

Dros y 12 mis diwethaf, gwelsom Ganolfan Ddydd Hafan Deg yn y Rhyl yn cael ei hallanoli ac mae bellach yn cael ei rhedeg gan KL Care. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys sesiynau pampro, dosbarthiadau cyfrifiaduron a garddio, ac mae'r gwasanaethau wedi cynyddu i gynnwys gwasanaeth golchi dillad a chlwb cinio.

Cynhaliwyd ymarfer tendro gennym ar gyfer allanoli Cartref Preswyl Dolwen yn Ninbych, ond ni chawsom ddigon o ddiddordeb i gwblhau hyn. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd gyda phartneriaid, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i edrych ar yr anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y dref. Bydd yr ymagwedd bartneriaeth hon yn sicrhau y bydd unrhyw ddatblygiadau newydd yn darparu datrysiadau iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy, o leiaf am y 25 mlynedd nesaf.

Mae adolygiad yn cael ei wneud ar hyn o bryd o'n Gwasanaethau Dydd a Chyfleoedd Gwaith ar gyfer rhai ag Anableddau Dysgu, cyhoeddir adroddiad ddechrau haf 2019.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Tîm Plant ag Anableddau wedi'i drawsnewid i ymgorffori uned sengl i roi cymorth i blant ag anableddau a salwch sy'n cyfyngu ar fywyd ar draws yr ystod angen, o ymyrraeth gynnar i ymyrraethau statudol aciwt. Mae'r ymagwedd hon yn cydnabod y bydd anghenion ac amgylchiadau'r plentyn a gofalmwr yn newid yn ystod plentyndod, ynghyd â dymuniad plant a rhieni i gael cymorth cyson gan un gwasanaeth. O ganlyniad, nid yw teuluoedd yn cael eu hatgyfeirio rhwng timau pan fo'u sefyllfaoedd yn newid, a gallant gael mynediad i lefel briodol o gymorth o fewn un tîm cyfarwydd.

Yn ystod 2018/19, mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi gweithredu'r gwasanaeth Sgiliau Bywyd i Deuluoedd sydd newydd ei gomisiynu, a gyflenwyd gan Barnardo's Cymru ac sydd wedi rhoi cymorth i 472 o unigolion. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth i deuluoedd ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i edrych ar ôl eu lles eu hunain. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth i deuluoedd er mwyn hybu cysylltiadau teuluol da, gofalu am ieuchyd eu plant, hybu sgiliau rhianta cadarnhaol, atal ymddygiad peryglus neu niweidiol, llythrennedd ariannol a sgiliau rheoli, ynghyd â chael byw mewn cartref da, a gweithio'n dda gydag ysgolion a cholegau.

“Rydych wedi newid bywyd ein teulu'n ddramatig eleni. Cyn i chi ddod, roeddynt yn ceisio fy rhoi ar feddyginiaeth gref a gallwn fod wedi gorfod mynd i gartref meddwl. Mae fy mab hynaf bellach yn byw mewn tŷ hyfryd diolch i chi, mae fy mab canol wedi bod mor hapus yn treulio amser gyda mi ar ei ben ei hun, ac mae'r mab ieuengaf bellach yn canu ar ei ffordd i'r ysgol yn y bore. I fod yn onest, fedra i ddim hyd yn oed dechrau dweud faint mae ein bywydau wedi'u cyfoethogi drwy gael eich cymorth. Diolch o galon.”

## Dyma beth sydd gennym ar ôl i'w wneud

Roedd 84% o oedolion yn teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth – 85% y llynedd

Mae nifer yr oedolion sy'n profi oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty (cronnus) wedi codi i 1.95 o 0.61 dros y 12 mis diwethaf

- Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu ein Timau Adnoddau Cymunedol, yn dysgu gan ein timau sydd wedi'u sefydlu yn y Rhyl a Rhuthun ac yn cyflwyno timau newydd yn Ninbych a Phrestatyn. Dylai datblygu gwasanaeth ieuchyd a gofal cymdeithasol mwy di-dor o fewn Sir Ddinbych ein helpu i leihau nifer yr oediadau wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty.
- O fewn ein gwasanaethau ieuchyd meddwl, byddwn yn datblygu rhaglen ddysgu gydag ymagwedd adfer a lles, lle cynhelir sesiynau mewn lleoliadau priodol a hygyrch yn y gymuned fel modd o gyflenwi gwasanaethau lefel isel trwy ddull effeithlon ac economaidd. Sefydlwyd Partneriaeth Dysgu Sir Ddinbych i gefnogi'r datblygiad hwn, ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn archwilio meysydd o arfer dda drwy Rwydwaith Dysgu Gogledd Cymru ar gyfer Llesiant.
- Byddwn yn gweithredu canfyddiadau'r adolygiadau o Wasanaethau Dydd a Chyfleoedd Gwaith ar gyfer rhai ag Anableddau Dysgu.
- Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'n dinasyddion i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth ar bob cyfle.

## c) Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag cam-drin, esgeuluso neu niwed

### Dyma beth roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud

- Sicrhau dull cyson o weithredu gan yr holl reolwyr arweiniol dynodedig
- Sicrhau bod Diogelu yn fater i bawb
- Datblygu adroddiadau chwarterol ar wersi a ddysgwyd i'w rhannu â'r holl Wasanaethau Cymorth Cymunedol
- Adolygu a datblygu ein system Cyfweld Cyn Dychwelyd Adref i ymdrin yn well â cham-fanteisio rhywiol a throseddol posibl ar blant
- Byddwn yn ceisio gweithio gyda'r Heddlu i ymateb i'r heriau a risgiau y mae troseddu cyfundrefnol a gweithgarwch gangiau yn eu hachosi i blant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych
- Byddwn yn canolbwyntio ar ffyrdd o recriwtio a chadw staff mewn amgylchedd sy'n fwyfwy cymhleth lle mae adnoddau'n prin
- Parhau i sicrhau bod ysgolion yn ymgymryd yn effeithiol â phob agwedd ar gyfrifoldebau diogelu, yn enwedig mewn perthynas â diogelu safleoedd

### Dyma beth rydym wedi'i wneud a'i gyflawni

|                                                                                                                   |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Dywedodd 83% o ofalwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel – 71% y llynedd                                                 |
| Dywedodd 75% o oedolion eu bod yn teimlo'n ddiogel – 73% y llynedd                                                |
| Ailgofrestru 3% o'r plant ar gofrestr amddiffyn plant yr awdurdod lleol                                           |
| Cyfnod amser cyfartalog pob plentyn a oedd ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn oedd 253.05 diwrnod. |

Mae sicrhau bod Diogelu yn fusnes i bawb wedi gweld amrywiaeth o gamau gweithredu a phrosesau'n cael eu gwreiddio mewn ymarfer dros y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn cynnwys:-

- Parhau i ddatblygu dealltwriaeth a rennir ac iaith ynghylch cyfrifoldebau diogelu corfforaethol. Mae'r Cynllun Diogelu corfforaethol wedi canolbwyntio ar gyflenwi hyfforddiant gorfodol ar draws yr Awdurdod Lleol drwy Fodiwl E-Ddysgu - Diogelu a Thrais yn Erbyn Merched. Cwblhawyd yr hyfforddiant gan yr holl staff yn y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a'r Gwasanaethau Plant.
- Mae cyfarfodydd proses chwarterol yn cael eu cynnal gyda Rheolwyr Arweiniol Dynodedig (DLMAu) sydd hefyd yn cynnwys rhoi sylw i arferion da yn ffurf trafod astudiaethau achos unigol. Gwahoddir siaradwyr allanol o sefydliadau sy'n bartneriaid, fel yr Heddlu ac Iechyd.
- Bu DLMAu yn chwarae rhan hefyd mewn cwblhau archwiliadau chwarterol o achosion diogelu.
- Amlygir diogelu drwy holl fusnes y gwasanaethau oedolion gan sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys yn yr holl ffyrdd gwaith, e.e. adolygiad o Gynlluniau Gofal a Chymorth Unigol a Chyllidebau Cymorth. Mae'n eitem sefydlog mewn cyfarfodydd rheoli hefyd.
- Bydd crynodebau o wersi a ddysgwyd a/neu gynlluniau gweithredu o Adolygiadau Ymarfer Oedolion / Adroddiadau Archwilio Chwarterol yn cael eu trafod hefyd mewn cyfarfodydd rheoli a thîm, gydag unrhyw gamau gweithredu / dysgu perthnasol yn cael eu rhoi ar waith.





Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi ymestyn y gwaith cydweithredol gydag asiantaethau sy'n bartneriaid ac wedi ymestyn cylch gorchwyl y Panelau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) sydd wedi golygu ein bod yn gweithio mewn modd mwy cydweithredol gyda'r heddlu. Mae'r bobl ifanc hynny sy'n hysbys i Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd wedi'u hasesu'n Risg Uchel, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae eu cynlluniau risg yn cael eu monitro. Mae aelodaeth y grŵp wedi cynyddu i gynnwys y trydydd sector yn ogystal â'r asiantaethau statudol. Bu'r Panel yn annog datblygu, gan gyfuno'r arbenigedd ac adnoddau amryw gyrff er mwyn canfod plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin drwy gamfanteisio.



Rydym yn parhau i gryfhau ein perthynas weithio gyda'r Heddlu mewn perthynas â throseddau cyfundrefnol a gweithgaredd gangiau drwy gynnwys y camfanteisio hwn o fewn y panel CSE a'r Cyfarfodydd Strategaeth Amlasiantaethol, gan sicrhau rhannu gwybodaeth ac ymateb amlasiantaethol priodol. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi darparu nifer o ddigwyddiadau hyfforddi i amryw gynulleidfaedd mewn perthynas â her Llinellau Cyffuriau.

Swyddogaeth yr Uned Diogelu ac Adolygu fu canolbwyntio ar ansawdd ymarfer ar draws y Gwasanaethau Plant ac Addysg, ynghyd â sut yr ydym yn datblygu swyddogaeth sicrwydd ansawdd mwy effeithiol. Fel mater o drefn, byddwn yn monitro ansawdd gwasanaethau yn erbyn safonau lleol. Cyflawnwyd hyn yn rhannol drwy ddatblygu proses uwchgyfeirio lle bydd Swyddogion Diogelu ac Adolygu Annibynnol yn uwchgyfeirio pryderon o ran ymarfer, mae hyn yn ein galluogi ni i herio ein hymarfer a'n syniadau'n rheolaidd.

Rydym yn cwblhau archwiliadau rheolaidd sy'n thematig, ac yn cynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rheiny ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, i'n galluogi ni i ddysgu o'n hymarfer ni ac eraill er mwyn gwella ein gwasanaeth i blant a'u teuluoedd.

Rydym wedi creu swyddi ymarferwyr Gofal Cymdeithasol i gynnal Cyfweiliadau Cyn Dychwelyd Adref er mwyn sicrhau lefel o annibyniaeth o Weithwyr Cymdeithasol dynodedig. Gan weithio gydag Awdurdodau Lleol eraill Gogledd Cymru, rydym wedi cytuno ar fformat cofnodi ac wedi darparu hyfforddiant.

## Dyma beth sydd gennym ar ôl i'w wneud

Cwblhawyd 622 o ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion yn ystod y flwyddyn, gyda 68% o'r ymholiadau ynghylch oedolion yn cael eu cwblhau o fewn 7 diwrnod.

- O ystyried y Canllawiau Cenedlaethol diwygiedig, mae'r Grŵp Penaethiaid Gwasanaeth yn datblygu Llawlyfr Polisi ac Ymarfer Amlasiantaethol i ategu'r Canllawiau Cenedlaethol ac i gefnogi ei ddefnydd ledled Gogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys protocol rhannu gwybodaeth, gwahaniaeth a gytunwyd rhwng plant yr adroddwyd eu bod ar goll a phlant yr adroddwyd eu bod yn absennol, ynghyd ag eglurder y pwrpas a rennir o ran Cyfweiliadau Cyn Dychwelyd Adref ac ymateb amlasiantaethol priodol.
- Roedd archwiliadau wedi canfod bod angen i ni barhau i wella ansawdd cynllunio gofal, gan gynnwys cynlluniau amddiffyn plant. Byddwn yn parhau i ddatblygu safon dadansoddiadau gan weithwyr, ynghyd â chanlyniadau a nodwyd drwy hyfforddiant a gwreiddio fformatau adrodd newydd sy'n cynorthwyo i ganolbwyntio ar ganlyniadau.
- Yn ystod y 12 mis nesaf, byddwn yn cyflwyno o leiaf un ymarfer myfyrio ynghylch diogelu gan bob ymarferwr o fewn y Gwasanaethau Oedolion.
- Byddwn yn gwerthuso gweithrediad y Protocolau Hunanesgeulustod a Chelcio.

## d) Cymell a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

### Dyma beth roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud

- Mae angen parhau â'r prosiect ailasesu i sicrhau bod pob dinesydd sy'n derbyn pecyn gofal a chymorth yn Sir Ddinbych yn cael ei adolygu'n unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn cael y canlyniadau sy'n bwysig iddo.
- Yn ein Gwasanaethau Anableddau Cymhleth, rydym yn ceisio parhau a datblygu'r gwaith ar hunaneirioli gyda'r sector annibynnol. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae cyfranogwyr y grŵp wedi cael cymorth i eirioli gyda Bysiau Arriva mewn perthynas ag anawsterau wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a chysylltiad rhai o aelodau'r grŵp ag ymgyrch Troseddau Casineb Heddlu Gogledd Cymru.
- Mewn gwasanaethau iechyd meddwl, byddwn yn adolygu ein gwasanaethau dydd ac yn datblygu'r rheini'n fodelau ymadfer a dysgu.
- Byddwn yn gweithio gyda'r prosiect 'Sir Ddinbych yn Gweithio' i weithredu llwybrau gyrfa a phrentisiaethau i blant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal



### Dyma beth rydym wedi'i wneud a'i gyflawni

|                                                                                                                                                                    |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Dywedodd 54% o oedolion eu bod yn gallu gwneud pethau sy'n bwysig iddyn nhw – 52% y llynedd                                                                        |
| Dywedodd 46% o ofalwyr eu bod yn cael gwneud pethau sy'n bwysig iddyn nhw - 45% y llynedd                                                                          |
| Dywedodd 67% o ofalwyr eu bod yn hapus gyda'r cymorth gan ffrindiau/teulu/cymdogion – 64% y llynedd                                                                |
| Dywedodd 86% o oedolion eu bod yn hapus gyda'r cymorth gan ffrindiau/teulu/cymdogion – 84% y llynedd                                                               |
| Mae 73% o blant yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 a 5% yng nghyfnod allweddol 4                                                         |
| Roedd 6% o blant sy'n derbyn gofal wedi profi un neu ragor o newidiadau yn yr ysgol yn ystod cyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddynt o ganlyniad i drefniadau pontio |

Hunaneirioli yn y Gwasanaeth Anabledd Cymhleth - Rydym wedi cefnogi unigolion i ddod yn rhan o Grŵp Cydraddoldeb Anabledd yr Heddlu ac maent yn gweithio gyda thrydydd i'w galluogi i ymuno hefyd. Mae hyn i sicrhau bod cynrychiolaeth bwerus o ran anableddau dysgu ar y grŵp. Teimlwn fod y math o gymorth a gynigir gennym i'r aelodau yn un sy'n galluogi i raddau helaeth. Gwnaeth un cynrychiolydd a fu ar y grŵp ers tro y sylw gwefreiddiol a ganlyn yn dilyn cyfarfod, "Clywais fy llais am y tro cyntaf a rhoddwyd clust i mi".

Fe gafodd y prosiect Ailasesu ganlyniadau cadarnhaol o ran sicrhau bod pob dinesydd sy'n derbyn pecyn gofal a chymorth yn cael ei adolygu yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac yn cyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddyn nhw. Gwelsom newidiadau i becynnau gofal a chymorth, sy'n arwain at fwy o annibyniaeth, hyblygrwydd a dewis a rheolaeth drwy gyfarpar a Thaliadau Uniongyrchol.

Profiad Ron o 'gyfarpar arbenigol' a gyflawnodd ei ganlyniad o ran gallu rheoli ei ofal personol ei hun ar ôl strôc. Roedd Ron yn benderfynol o wneud mwy dros ei hun - roedd ganddo gawod llawr gwlyb wedi'i osod ac roedd yn gallu cael cawod heb gymorth, ond roedd yn dal i fod angen cymorth i sychu ei hun. Llwyddwyd i ddod o hyd i beiriant sychu ar gyfer y corff a osodwyd yn y gawod a oedd yn caniatáu i Ron aros yno ar ôl ymolchi wrth i'r sychwr chwythu aer cynnes i'w sychu. Roedd Ron wrth ei fodd gyda'r sychwr gan ei fod wedi caniatáu iddo gyflawni'r un peth nad oedd wedi gallu ei wneud yn annibynnol drwy gydol yr 8 mlynedd diwethaf.

Mae ein fforymau cydweithwyr, ymarfer myfyriol, gweithdai a thaliadau uniongyrchol yn rhai o'n hymdrechion i ddatgloi'r creadigrwydd ymhlith y staff.

Galwodd Mary heibio'r Pwynt Siarad wrth ymweld â'r Llyfrgell i nôl llyfr. Siaradodd Mary â'r Llywiwr Cymunedol ac eglurodd nad oedd ond newydd symud i'r ardal i fwynhau ei hymddeoliad, ond gan nad oedd yn adnabod unrhyw un, teimlai'n unig. Ar ôl sgwrs, daeth yn hysbys bod Mary yn mwynhau cerdded, felly darparwyd gwybodaeth iddi am grwpiau cerdded lleol. Roedd y Llywiwr hefyd yn ymwybodol o grŵp o ferched a oedd wedi ymddeol sy'n ymweld â'r Llyfrgell, yn wythnosol i ddychwelyd llyfrau, wrth fynd am dro o amgylch y pentref. Trefnodd gyfarfod, ac mae Mary bellach yn cerdded gyda'r merched, mae wedi gwneud ffrindiau newydd ac yn cael budd o'r cyfle i ymarfer. Roedd hyn yn rhywbeth syml iawn ond teimlai Mary fod y Llywiwr Cymunedol yn wir wedi gwrandao arni.

Gall 'sgyrsiau beth sy'n bwysig', Pwyntiau Siarad a Llyw-wyr Cymunedol hefyd fod yn gyfrwng tystiolaeth o atal angen dinasyddion am ofal a chymorth. Yn gyffredinol, rydym yn falch o adrodd bod ein hymagwedd, sy'n seiliedig ar asedau ar draws ein gwasanaeth cyfan, wedi arwain at ostyngiad yn nifer y dinasyddion sydd angen gofal a chymorth a ariannir gan y Cyngor. Mae hyn yn well ar gyfer dinasyddion o ran cynnal annibyniaeth, ac ar gyfer y Cyngor, o ran lleihau'r galw ar ein cyllidebau cyfyngedig.

Mae Bwrdd Cynghori Profiad Byw ('Lived Experience Advisory Board') wedi cael ei sefydlu, lle mae dinasyddion wedi cael cynnig, a byddant yn parhau i gael cynnig, hyfforddiant i feithrin capasiti ac i gymryd perchnogaeth lawn o'r grŵp a chael llais clir mewn cynllunio ar gyfer atal digartrefedd yn Sir Ddinbych. Sefydlwyd grŵp cyd-gynhyrchu (sy'n cynnwys dinasyddion) i ddatblygu a chyflenwi hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth ynghylch atal digartrefedd.

Rydym wedi cwblhau ymarfer bodlonrwydd ac ymgynghori gydag unigolion sy'n mynychu gwasanaethau cyfleoedd gwaith mewnol a'u teuluoedd. Bydd hyn yn helpu i lywio'r adolygiad a'r modd y dylunnir gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

Mae Sir Ddinbych yn Gweithio wedi ymgysylltu'n weithredol â NEWCIS a'r Prosiect Cefnogi Gofalwyr ac maent yn cefnogi'r gofalwyr hynny sy'n dymuno canfod cyflogaeth.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae ymgysylltiad â gwasanaeth Dechrau'n Deg Sir Ddinbych, sy'n cefnogi teuluoedd bregus i sicrhau bod eu plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, wedi cynyddu 4% i 80%. Mae un agwedd ar gyflenwi yn ymwneud â chyflenwi gofal plant o ansawdd sy'n darparu cyfleoedd i blant ddatblygu a chymdeithasu er mwyn eu paratoi i ymgysylltu mewn addysg fel y maent yn mynd yn hŷn, ynghyd â chyfle i ganfod ac ymateb i anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gynnar a chaniatáu i rieni gael mynediad i gymorth er mwyn ymgysylltu ag addysg a dysgu neu gyflogaeth.

Mae cynnydd o ran ymgysylltu â theuluoedd, ynghyd â'r defnydd ehangach o offerynnau sgrinio Lleferydd ac Iaith Wellcomm, wedi galluogi'r gwasanaeth i ganfod a mynd i'r afael â materion datblygu ar y cyfle cyntaf bosibl er mwyn cyflenwi canlyniadau gwell i'r dyfodol ar gyfer y plant a gefnogir.

Mae'r consortiwm Cefnogi Pobl Ifanc, sef rhan o'r ystod o gymorth sydd ar gael drwy'r gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf a Help Cynnar Dechrau'n Deg, yn rhoi cymorth i bobl ifanc bregus, sydd rhwng 11 a 18 oed, a hyd at 25 oed o ran y rheiny a effeithir ag anabledd, er mwyn cyflawni eu nodau mewn perthynas â'u hannibyniaeth, eu haddysg a'u cyflogaeth.

"Rwyf wedi mynd o gymryd gwahanol feddyginiaethau, diffyg hyder, codi am 3 o'r gloch y pnawn, i godi am 6 o'r gloch y bore a gweithio drwy'r dydd, derbyniais fy siec gyflog cyntaf, fyddwn i ddim wedi gwneud hyn heb eich cefnogaeth."

Mae llywiwr lles anabledd wedi'i gyflogi gan ein Gwasanaethau Plant i roi cymorth i ofalwyr sy'n rhieni.

Gwasanaeth 'Out & About' – yn rhoi cymorth i 16-18 o blant ar gyfartaledd, a chanddynt anableddau sylweddol a chyfyngol, yn ystod y gwyliau ysgol, er mwyn iddynt allu cymdeithasu â chyfoedion a mynd allan ar dripiâu a gwneud gweithgareddau yn y gymuned.

Rydym wedi datblygu rôl Llwybr Gyrfa (Cynllun 'Work Start') ar gyfer Plentyn sy'n Derbyn Gofal (LAC) a fydd yn cychwyn ar 1<sup>af</sup> Ebrill 2019. Mae hon yn rôl barhaol o fewn y cyngor sy'n dechrau ar Radd 2, ac ar ôl cwblhau a chyflawni cymwysterau, bydd yn codi i Radd 5. Trwy gydweithio â Barnardo's a Sir Ddinbych yn Gweithio, bydd yr unigolyn ifanc yn derbyn cymorth mentoriaid pwrpasol i sicrhau bod ganddynt y sgiliau iawn y mae eu hangen yn y gweithle. Mae pecyn cymorth yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r cynllun hwn i alluogi defnyddio'r un model gyda 14 o unigolion eraill yn 2019/20.




## Dyma beth sydd gennym ar ôl i'w wneud

Dywedodd 56% o ofalwyr eu bod yn hapus gyda'r cymorth a gawsant – 61% y llynedd

Dywedodd 58% o oedolion eu bod yn teimlo'n rhan o'u cymuned – 59% y llynedd

- Mae'r Prosiect Ailasesu yn parhau, rydym wedi penodi Therapydd Galwedigaethol profiadol i fynd â'r prosiect i'r cam nesaf, sef adolygiad o ddinasyddion sydd ag anghenion a phecynnau cymhleth, gyda golwg ar weld a allwn leihau dibyniaeth ar ofal a chymorth gyda chyfarpar arbenigol, gan felly hybu annibyniaeth, urddas a chyflawni beth sy'n bwysig.
- Rydym eisiau gweld ein hybiau cymunedol ar gyfer Anableddau Cymhleth yn aeddfedu ac yn cyflawni'r canlyniadau gorau bosibl ar gyfer y dinasyddion. Rydym eisiau gweld ein gwasanaeth Llyw-wyr Cymunedol yn datblygu, mae Llywiwr Cymunedol yn rhan annatod o bob Tîm Adnoddau Cymunedol. Rydym eisiau gweld mwy o enghreifftiau o ddinasyddion yn cael eu cysylltu â'u cymunedau lleol a rhagor o enghreifftiau o fentrau cyffrous ar y cyd â llyfrgelloedd, y celfyddydau ac ysgolion.
- Eleni, byddwn yn gweithredu yn ôl canfyddiadau Oedi ac Adolygu Pwyntiau Siarad wrth wneud ein 8 Pwynt Siarad ar draws Sir Ddinbych yn hyd yn oed gwell ar gyfer dinasyddion Sir Ddinbych. Rydym eisiau i'n cymunedau 'gymryd perchnogaeth' o Bwyntiau Siarad. Gyda phartneriaid, rydym eisiau gweld sefydlu rhagor o bwyntiau Gwybodaeth Lles yng nghanol cymunedau ynghyd â dynodi hyrwyddwyr mewn swyddfeydd post, ysbytai ac ati.
- Gweithio gyda phrosiectau a gomisiynwyd gan Cefnogi Pobl i sefydlu gwell mecanweithiau/cynigion o gymorth i annog a chaniatáu pobl ifanc mewn tai â chymorth i gael swydd.
- Bydd yr adolygiad o wasanaethau sy'n darparu cyfleoedd gwaith ac yn ystod y dydd (gwasanaethau Anabledd Dysgu) yn cael ei gwblhau ym mis Mehefin 2019.
- Byddwn yn parhau i archwilio opsiynau o ran gwasanaethau Hyd Oes ('Lifespan') ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Rydym wedi gwneud cais am gyllid i ganiatáu i Therapydd Galwedigaethol ymuno â'r Clwstwr Byw yn y Gymuned i weithio gydag unigolion sy'n trosglwyddo o wasanaethau ieuencid i gynnal asesiadau a chynllunio'n gynnar er mwyn sicrhau gweithgareddau a llety mwy cynaliadwy.
- Datblygu pecyn cymorth ar gyfer caniatáu i roi cynllun 'Work Start' ar waith ar gyfer 14 o unigolion eraill yn 2019/20.
- Adolygu a gwella mynediad i Blant sy'n Derbyn Gofal a rai sy'n Gadael Gofal yn Sir Ddinbych, gyda'r cyfle i gymryd rhan mewn lleoliad gwaith a/neu gynllun hyffordddeaeth gyda'r awdurdod lleol.
- Datblygu lleoliad preswyl ar gyfer 2/3 diwrnod ar gyfer cyfanswm o 40 o Blant sy'n Derbyn Gofal, a fydd yn cynnwys sgiliau bywyd, e.e. coginio, cyllidebu/arian, cyflogaeth, lles meddyliol a rhyngweithio/sgiliau cymdeithasol.
- Arddangos cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal y rhoddwyd cymorth iddynt gael cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.



## e) Helpu pobl i ddatblygu a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol yn ddiogel

### Dyma beth roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud

- Diweddarau'r Strategaeth Gofalwyr a chytuno ar gamau gweithredu newydd: er mwyn cyflawni hyn byddwn yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â gofalwyr, darparwyr y Trydydd Sector ac eiriolwyr.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda NEWCIS (sydd â gwirfoddolwyr a fu'n ofalwyr) drwy ariannu hyfforddiant i'r gofalwyr er mwyn hwyluso Grwpiau Iechyd Meddwl yr Henoed.
- Byddwn yn cydweithio'n agos â'n cymheiriaid yn BIPBC i gynorthwyo gofalwyr a sicrhau bod y Timau Adnoddau Cymunedol arfaethedig yn cwblhau asesiadau gofalwyr yn rhan o'u gwaith.
- Datblygu prosesau i hybu perthnasoedd cadarnhaol rhwng rhieni ac ysgolion er mwyn cynnal presenoldeb a chanlyniadau addysgol eu plant

### Dyma beth rydym wedi'i wneud a'i gyflawni

|                                                                                                                                                                                                                         |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Dywedodd 86% o oedolion eu bod yn hapus gyda'r cymorth gan ffrindiau/teulu/cymdogion – 84% y llynedd                                                                                                                    |
| Dywedodd 61% o oedolion eu bod yn hapus gydag ansawdd eu bywyd – 53% y llynedd                                                                                                                                          |
| Dywedodd 77% o ofalwyr eu bod yn rhan o benderfyniadau am ofal a chymorth y sawl y maent yn gofalu amdanynt, ond teimlodd 69% yn rhan o benderfyniadau am eu cymorth eu hunain - 71% a 67%, yn y drefn honno, y llynedd |
| Dywedodd 58% o oedolion eu bod yn teimlo'n rhan o'u cymuned – 59% y llynedd                                                                                                                                             |
| Roedd 71% o'r holl rai sy'n gadael gofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal a 50% ar ôl 24 mis                                                                                          |
| Roedd 15% o'r holl rai sy'n gadael gofal wed profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn                                                                                                                                     |

Mae'r Prosiect Cefnogi Gofalwyr yn Sir Ddinbych 2018-2022 yn cefnogi'r flaenoriaeth gorfforaethol o adeiladu cymunedau annibynnol a gwydn fel rhan o gynllun corfforaethol 2017-2022. Rydym wedi adnewyddu Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau cefnogi gofalwyr yn y Trydydd Sector ac yn hwyluso Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych, sef fforwm o sefydliadau sy'n cynrychioli gofalwyr. Fe gafodd Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y Grŵp Strategaeth eu hadolygu yn 2018.

Lansiwyd grŵp darllen i helpu'r rheiny syn byw gyda dementia a'u gofalwyr. Rydym yn gweithio gyda NEWCIS ac yn peilotu'r grŵp Darllen a Chofio yn Llyfrgell y Rhyl a'r Siop Un Stop. Mae gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Llyfrgell hefyd wedi arwain at gynyddu ystod y llyfrau sydd o ddiddordeb i ofalwyr, ac mae'r gwasanaeth llyfrgell i rai sy'n gaeth i'w cartref yn dod â llyfrau i gartrefi pobl bob mis, gan gynnwys llyfrau sydd wedi'u cymeradwyo'n glinigol i helpu pobl sy'n byw â dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr, i ddeall y gwahanol gyflyrau.

Mae Gwirfoddolwyr NEWCIS hefyd yn mynychu Pwyntiau Siarad i ddarparu gwybodaeth a chynghori i ofalwyr.

Rydym wedi ymgysylltu â 2 ofalwr lleol er mwyn dysgu o'u profiadau – [gweler eu trafodaeth yma](#).





Mae Cyngor Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ariannu Gweithiwr Gofalwyr Iach a leolir yn ein Pwynt Mynediad Sengl (SPoA). Mae'r rôl yn darparu Cymorth 1-1 i ofalwyr, gan gynnwys ymweliadau adref ar gyfer y rheiny a all fod angen cymorth gyda'u hiechyd eu hunain, ynghyd â'u helpu i ddarparu gofal a chymorth hyderus a medrus ar gyfer yr un y maent yn gofalu amdanynt.

Mae'r Gwasanaethau Plant wedi cyflogi Llywiwr Lles Anabledd i ddarparu cymorth i Rieni sy'n Ofalwyr.

Rydym wedi comisiynu Age Connects i gyflenwi Prosiect Garddio 'Perennials' yn y Tweedmill yn Llanelwy, sy'n darparu cyfle i ofalwyr, gan gynnwys y rheiny sy'n gofalu am bobl sy'n byw gyda dementia, i ddod i 'feithrin cysylltiadau yn y gymuned', gan ddysgu am blanhigion a thyfu blodau a bwyd i fynd adref gyda nhw.

Gweithwyr Cyswllt Teulu - maent wrthi ar hyn o bryd yn rhoi cymorth i 41 o ysgolion cynradd ar draws y sir, gyda 2018 /19 yn gweld ehangu'r gwasanaeth i mewn i gymunedau gwledig ac ysgolion llai.

Pwrpas y Gweithiwr Cyswllt Teulu yw lleihau'r effaith y mae amgylchiadau teuluol anodd yn eu cael ar ddysgu a lles plentyn. Mae'n fodel cefnogol lle mae rhieni'n cael eu grymuso i ganfod eu hanawsterau ac wedyn yn cael cymorth i ddod o hyd i ddatrysiadau. Mae ymyrraeth gynnar yn sail i'r gwasanaeth, ac mae gweithredu cyrsiau 'Deall eich plentyn' a Chyrsiau 'Rhianta Ar-lein' wedi profi i fod yn fanteisiol iawn i'r teuluoedd sy'n cymryd rhan.

Hyd yma, mae 72 o rieni wedi mynychu'r cwrs 10 wythnos, Deall Eich Plentyn, a gyflwynwyd mewn 8 ysgol, ac mae 69 o rieni eraill wedi cael mynediad i'r cwrs Rhianta Ar-lein. Darparwyd hyfforddiant hefyd i 36 o staff ysgolion a lleoliadau, er mwyn sicrhau cysondeb o ran ymagweddau wrth reoli ymddygiad plant yn y cartref, yn y lleoliad cyn-ysgol ac wedyn yn yr ysgol.



Addysg Ddewisol yn y Cartref - buom yn gweithio'n galed i gryfhau a datblygu ein cysylltiadau gyda theuluoedd sy'n dewis addysgu eu plant yn y cartref. Cyflawnwyd hyn drwy ddatblygu cysylltiadau cryfach gyda'n Gwasanaethau Llyfrgell er mwyn cael mynediad i adnoddau, defnyddio ein Gwasanaeth Hamdden i ddarparu cyfleoedd i deuluoedd ddatblygu eu hiechyd a lles, ynghyd â rhoi cymorth i blant fynd yn ôl i mewn i'r ysgol neu i rai 14-19 fynd i mewn i gyflogaeth neu hyfforddiant, os yw hynny'n briodol. Dros y 12 mis diwethaf, gwelsom gynnydd o 50 i tua 100 o ddisgyblion nad ydynt mwyach yn cael eu haddysgu yn y cartref ac sydd bellach mewn addysg brif ffrwd. Gellir priodoli hyn i sawl ffactor, bod mwy yn cael eu canfod, ynghyd â thuedd genedlaethol o fwy o ddisgyblion yn cael eu tynnu allan a newidiadau demograffig.



## Dyma beth sydd gennym ar ôl i'w wneud

Roedd 42% o ofalwyr yn teimlo eu bod yn rhan o'u cymuned – 48% y llynedd

Roedd 46% o ofalwyr yn teimlo eu bod yn gallu gwneud y pethau a oedd yn bwysig iddynt – 45% y llynedd

- Byddwn yn dysgu o brofiadau ein gofalwyr lleol drwy wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch a sicrhau bod gennym 1 Aseswr Gofalwyr ym mhob Tîm Adnoddau Cymunedol er mwyn parhau i adeiladu ar y cysylltiadau rhwng lechyd a Gofal Cymdeithasol a dileu rhwystrau i ofalwyr.
- Byddwn yn parhau i weithredu ac ymestyn y gwaith o gyflenwi'r prosiect Cefnogi Rhieni er mwyn cynnig ymagwedd 'Solihull Understanding Comes Before Change' i hyrwyddo rhianta cadarnhaol i bob rhiant yn Sir Ddinbych.
- Cynyddu capasiti (mewnol a'r trydydd sector) ar gyfer gwasanaethau ataliol i gefnogi mwy o ofalwyr sy'n dod ymlaen i gael cymorth, fel canlyniad uniongyrchol i Brosiect Cefnogi Gofalwyr yn Sir Ddinbych.
- Gweithredu a gwreiddio argymhellion a chatau gweithredu o Fenter Mesur y Mynydd Llywodraeth Cymru.

**f) Gweithio gyda phobl a'u helpu i sicrhau llesiant economaidd gwell, i gael bywyd cymdeithasol ac i fyw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u hanghenion.**

## Dyma beth roeddem wedi dweud y byddem yn ei wneud

- Parhau i gydweithio â chymunedau a phartneriaid i gynyddu nifer y Cymunedau a Sefydliadau sy'n Cefnogi Pobl â Dementia yn Sir Ddinbych yn unol â'r Cynllun Corfforaethol, o dan arweiniad Partneriaeth Heneiddio'n Dda Sir Ddinbych.
- Parhau i weithio gyda holl Adrannau'r Cyngor, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Sefydliadau'r Trydydd Sector a Landlordiaid y Sector Preifat i gynyddu nifer ac amrywiaeth y llety argyfwng a dros dro addas sydd ar gael yn Sir Ddinbych.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu ein Gwasanaethau Atal Digartrefedd yn unol â'r Ddeddf Tai i sicrhau ein bod yn darparu rhagor o waith atal. Byddwn hefyd yn datblygu offer ar-lein i'w defnyddio gan ddinasyddion sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref gan gynnwys eu cyfeirio at gymorth a chefnogaeth briodol.
- Byddwn yn cyflwyno Llywiwr Cymunedol Penodol ym maes Tai i weithio mewn partneriaeth â Canolfan Byd Gwaith i helpu'r dinasyddion hynny sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref o ganlyniad i Ddiwygio Budd-daliadau.
- Byddwn yn ceisio recriwtio Gofalwyr Maeth newydd er mwyn ehangu dewis, cwrpas a dosbarthiad y lleoliadau i blant sy'n cael eu cymryd i ofal. Byddwn yn parhau i gydweithio â'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol i safoni taliadau i Ofalwyr Maeth ledled Cymru.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i reoli'r effaith a gaiff y Credyd Cynhwysol ar rai o'r teuluoedd mwyaf agored i niwed, er enghraifft, y rheini sy'n profi cam-drin domestig, anawsterau dysgu a rhai sydd mewn perygl o golli eu tenantiaethau.
- Parhau i ddod o hyd i lety addas i rai sy'n gadael gofal.



## Dyma beth rydym wedi'i wneud a'i gyflawni

|                                                                                                    |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Roedd 83% o bobl yn adrodd eu bod wedi dewis byw mewn cartref gofal preswyl                        |
| Roedd 86% o oedolion yn dweud eu bod yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu lles orau – 82% y llynedd |
| Roedd 87% o ofalwyr yn dweud eu bod yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu lles orau – 75% y llynedd  |
| Roedd 97% o ofalwyr yn gallu defnyddio eu hiaith ddewisol – yr un fath â'r llynedd                 |
| Roedd 98% o oedolion yn gallu defnyddio eu hiaith ddewisol – 97% y llynedd                         |

Gan rannu ein profiad o gefnogi dinasyddion sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr, rydym wedi cyfrannu at ddatblygu prosiect y Cynllun Corfforaethol, 'Gweithio Tuag At Gyngor Sir Ddinbych sy'n Gyfeillgar i Dementia'.

"Dim ond i ddweud fy mod yn ddigon lwcus i fynd ar y bws, profiad sydd yn wir wedi agor fy llygaid, a dwi'n ei argymhell yn fawr i bawb."

Ar ôl diogelu cyllid gan y Gronfa Gofal Integredig, cynhaliwyd ystod o hyfforddiant Dementia gennym, sydd wedi'i agor i bartneriaid, mewnol ac allanol, y Cyngor. Daethom â'r Bws Dementia i Sir Ddinbych ac roedd y profiad yn eithriadol o boblogaidd, o ran cyfleu yn union sut brofiad ydy byw hefo Dementia.

Rydym yn aelodau o grŵp llywio sy'n cyfrannu tuag at wneud Tref Dinbych yn Dref Gyfeillgar i Dementia. Rhoddir sylw arbennig

gennym i weithio gyda phractisau Meddygon Teulu yn y dref.

Fel rhan o gyflenwi'r Cynllun Gweithredu Dementia, mae gennym bellach Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol Dementia sy'n gysylltiedig â phob un o'n Timau Adnoddau Cymunedol.

Rydym wedi datblygu cynnig i landlordiaid er mwyn cynyddu a gwella'r llety dros dro sydd ar gael i'r aelwydydd hynny sy'n profi digartrefedd a, dros y 3 mis diwethaf, rydym wedi cynyddu ein portffolio i dros 50 o eiddo.

Er mwyn lleihau nifer yr aelwydydd sy'n dod yn ddigartref, rydym wedi cyflwyno nifer o fentrau yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n cynnwys Swyddog Brysbennu. Bydd y swyddog hwn yn rhoi cymorth drwy gyfryngu os yw'r achos o ddigartrefedd o ganlyniad i deulu yn chwalu. Bydd yn cyfeirio ymlaen at asiantaethau eraill, e.e. Cyngor Ar Bopeth i gael cymorth gyda chyllidebu, neu'r tîm Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn am gymorth ariannol i glirio ôl-ddyledion rhent.

Mae gennym bellach Lywiwr Digartrefedd wedi'i leoli o fewn Canolfan Byd Gwaith y Rhyl sy'n rhoi cymorth i ddinasyddion ar yr adeg y maent yn ymgysylltu â'r Ganolfan Gwaith. Mae hyn yn ein helpu i roi cymorth i'r dinasyddion hynny sydd hefyd angen help i hawlio'r budd-daliadau iawn fel Credyd Cynhwysol.

Daeth Mr A i mewn i'r Ganolfan Waith, roedd wedi cael cynnig swydd ond gan nad oedd ganddo gartref, nid oedd yn gallu derbyn y swydd. Cysylltodd y Llywiwr â'r Tîm Atal Digartrefedd a gynigiodd gymorth ariannol tuag at dalu blaendal a rhent ymlaen llaw. Gyda phawb yn cydweithio, bu modd iddo gael llety a swydd.

Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid fel Cyngor Ar Bopeth Sir Ddinbych i sicrhau ein bod yn rhoi cymorth i ddinasyddion hawlio Credyd Cynhwysol, ac mae ein Llyw-wyr Cymunedol wedi cefnogi dinasyddion i gael mynediad i Fanciau Bwyd os bu oediadau o ran derbyn taliadau. Darparwyd hyfforddiant hefyd i Staff Rheng Flaen er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o Gredyd Cynhwysol.

Rydym wedi comisiynu 3 cynllun byw yn y gymuned i oedolion sydd ag anableddau cymhleth - cefnogi pobl i fyw mor annibynnol â phosibl mewn amgylchedd diogel a chyfforddus.

Sefydlwyd y Llwybr Cadarnhaol i Bobl Ifanc ers Gorffennaf 2018, ac mae'n rhoi cymorth i bobl ifanc (hyd at 25 oed) er mwyn atal digartrefedd drwy ganfod adnoddau o ran tai a darparu cymorth drwy gyfryngu a chefnogaeth emosiynol. Mae hyn yn cynnwys canfod llety priodol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i fod yn aelodau gweithredol o'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol, a dros y 12 mis diwethaf roedd rhai o'r gweithgareddau allweddol yn cynnwys:-

- Marchnata, Recriwtio a Chadw
- Cysoni Ffioedd a Lwfansau
- Fframwaith Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu

## **Dyma beth sydd gennym ar ôl i'w wneud**

- Gwreiddio rôl yr Ymarferwr Gofal Cymdeithasol Dementia o fewn pob un o'r 4 Tîm Adnoddau Cymunedol, ac edrych i weld sut y gall y rolau hyn gefnogi datblygiad cymunedau a sefydliadau sy'n gyfeillgar i ddementia yn Sir Ddinbych.
- Mynd ati'n weithredol i weithio tuag at gyflawni Cyngor Sir Ddinbych sy'n Gyfeillgar i Dementia.
- Parhau i ddatblygu Pwyntiau Siarad fel 'mannau diogel' yn seiliedig ar adborth o'r ymarfer Oedi ac Adolygu diweddar.
- Parhau i weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Landlordiaid o'r Sector Rhent Preifat i ganfod llety addas ar gyfer prosiectau tai â chymorth – byddai hyn yn cynnwys y bobl ifanc hynny sydd ag anghenion iechedd meddwl cymhleth.
- Anelu tuag at ddatblygu rhaglen o waith, gan gynnwys cyflwyniad DVD sydd wedi'i ddatblygu gan bobl ifanc i'w ddefnyddio mewn ysgolion, sy'n nodi'r materion a'r heriau i'r unigolyn o ran digartrefedd, ynghyd â'r effaith ar iechedd emosiynol yr unigolyn ifanc.
- Parhau i weithio tuag at gynyddu niferoedd y gofawyr maeth mewn marchnad eithriadol o gystadleuol.

## **Adran 5. Sut Rydym yn Cyflawni ein Gwaith.**

### **Datblygu'r Gweithlu**

Rydym wedi cyflwyno ein hyfforddiant i'n holl staff a'n darparwyr mewn perthynas â Chymorth Gweithredol ac yn cynllunio i sefydlu Cymuned Ymarfer/grŵp llywio i sicrhau parhad a chynaliadwyedd y dull hwn. Lluniwyd cais ar y cyd ag iechedd i'r Gronfa Gofal Integredig er mwyn gwreiddio Cymorth Gweithredol ymhellach o fewn Sir Ddinbych.

Mae Fforymau Cydweithwyr yn gweithio'n dda o ran mynd ati mewn modd cadarnhaol i gynnwys staff mewn gwneud penderfyniadau ac i sicrhau ymatebion cyson i deuluoedd a dinasyddion ynghylch pecynnau cymorth newydd ac adolygiadau o wasanaethau sy'n bodoli eisoes. Cynhaliwyd hyfforddiant Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn gyda thimau gweithredol a phartneriaid mewn perthynas â'r ymagweddau cymesur ac ataliol er mwyn rhoi cymorth i bobl ag Anableddau Dysgu ac Awtistiaeth.

Mae ein Tîm Ardal ar gyfer De'r Sir wedi cael eu henwebu yng ngwobrau Gwaith Cymdeithasol BASW Cymru 2019 yn y categori Tîm Gwaith Cymdeithasol. Derbyniodd y tîm dystysgrif cyflawniad gan BASW am eu gwaith caled a'u cyfraniad at waith cymdeithasol yng Nghymru.

Mae ein Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol hefyd wedi dechrau darparu lleoliadau hyfforddiant mewn cydweithrediad â Cyngor Ar Bopeth, y gwasanaeth cyfleoedd gwaith a Grŵp Llandrillo. Mae'r olaf o'r rhain wedi darparu mynediad i fyfyrwyr lechyd a Gofal Cymdeithasol i'r gwasanaeth lle cawsant fudd o weithio'n uniongyrchol o fewn darpariaeth gwasanaeth a gyda'n dinasyddion.

Mae'r staff Atal Digartrefedd wedi mynychu hyfforddiant ynghylch yr hyn a elwir yn 'cuckooing', llinellau cyffuriau a chaethwasiaeth fodern.

Mae Tîm Datblygu'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn rhedeg cyrsiau hyfforddiant i ofalwyr sy'n cynnwys pob agwedd ar ofalu, gan gynnwys diogelu ac ymddygiad heriol, a chysiau arbennig ar gyfer y rheiny sy'n gofalu am rywun efo Dementia.

O fewn ein Gwasanaethau Plant, mae diwylliant dysgu yn cael ei hyrwyddo'n barhaus, a darparwyd digwyddiadau dysgu thematig ganddynt ar draws y gwasanaeth, gan gynnwys:-

- Credyd Cynhwysol
- Llwybrau Help Cynnar
- Cynllunio Gofal ac Amddiffyn Plant
- Dyletswyddau Statudol i Blant Sy'n Derbyn Gofal

Gwneir pob ymdrech yn barhaus i gadw staff presennol, a hynny mewn amgylchedd mwy a mwy cymhleth a chystadleuol. Darperir hyfforddiant, gan gynnwys: seminarau dysgu; diwrnodau gwasanaeth; datblygiad proffesiynol; goruchwyliaeth; ôl-drafodaethau, a chymorth un-i-un mewn perthynas â chymorth emosiynol, oll i sicrhau ein bod yn darparu cymorth priodol i staff.

Buom yn ffodus o ran peidio â gorfod dibynnu ar staff asiantaeth, ac adlewyrchir hyn yn sefydlogrwydd a chysondeb llawer o'r gwaith achosion, yn enwedig mewn perthynas â niferoedd sefydlog y plant sy'n derbyn gofal ynghyd â gwaith llys a lleoliadau parhaol.

### **Mwy 'na Geiriau – 'More than just words'**

Yn ystod 2018/19, rydym wedi canolbwyntio ar barhau â gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o'r 'Cynnig Gweithredol' a chreu amodau ffafriol ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg o fewn ein gwasanaethau rheng flaen. Cyflawnwyd hyn drwy hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol penodol fel 'Dydd Santes Dwynwen', 'Dydd Miwsig Cymraeg' a Dydd Gŵyl Dewi.

Bu'r grŵp 'Mwy 'na Geiriau' Rhanbarthol yn cyfarfod. Cytunwyd ar gamau gweithredu interim i'w cyflawni yn ystod 2019-20 a ymgorfforwyd o fewn Cynllun Busnes y GCC. Mae'r Camau Gweithredu yn canolbwyntio ar dair thema:

- Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Cyflwynwyd cyflwyniad ar fframwaith 'Mwy 'na Geiriau' mewn Digwyddiad Darparwyr diweddar, ac roedd yn cynnwys gwybodaeth am y Cynnig Gweithredol, yr adnoddau sydd ar gael, ynghyd â hyfforddiant iaith Gymraeg am ddim i'r Sector Gofal.

Fel rhan o'r hyfforddiant Dementia, cyflenwyd 4 cwrs ar 'Gyfathrebu ym maes Dementia' a oedd yn cynnwys cyd-destun dwyieithog Cymru a phwysigrwydd y Cynnig Gweithredol o fewn Gofal Dementia.

Mae Hyrwyddwr y Gymraeg wedi mynychu cyfarfodydd a grwpiau allweddol o fewn yr Awdurdod Lleol i hyrwyddo'r 'Cynnig Gweithredol', fel Grŵp Tasg a Gorffen RISCA lle gwnaed mynychwyr yn ymwybodol o'r egwyddorion sylfaenol a'r cymorth sydd ar gael ar gyfer gweithredu'r ymagwedd o fewn ein Gwasanaethau Darparwyr mewnol, sy'n cynnwys ein Tîm Annibyniaeth yn y Cartref a Chartrefi Gofal Preswyl.

Mae Grŵp Cymraeg anffurfiol wythnosol yn cael ei gynnal bellach yn Russell House ('Paned a Sgwrs').

Mae hwn yn cael ei hwyluso gan Swyddog Iaith Gymraeg y cyngor. Gwnaed staff yn ymwybodol hefyd o gyfleoedd i fynychu cwrs iaith Gymraeg preswyl yn Nant Gwrtheyrn ar gyfer y rheiny sydd eisiau gwella eu sgiliau iaith Gymraeg.

Ystyrir sgiliau iaith Gymraeg bob amser fel rhan o recriwtio i swyddi allweddol sy'n ymgysylltu â dinasyddion a sefydliadau sy'n bartneriaid.

## **Rheoli ein Hadnoddau a Chynllunio ar gyfer y Dyfodol**

Rydym ar fin cynnal gweithgaredd meincnodi i edrych ar ble'r ydym wedi cyrraedd bellach fel gwasanaeth mewn perthynas â Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru drafft, ac er mwyn nodi camau gweithredu ar gyfer dilyn egwyddorion y strategaeth yn agosach, ynghyd â chamau gweithredu y mae angen eu cyflawni i drawsnewid gwasanaethau a'r gymuned yn unol â nodau'r strategaeth honno.

### **Cynllunio Ariannol a Monitro'r Gyllideb**

Cyflwynir adroddiadau misol ar yr alldro ariannol i'r weithrediaeth sy'n rhagfynegi'r sefyllfa diwedd blwyddyn. Cyfeirir at eithriadau neu bwysau yn yr adroddiadau, gyda chamau lliniaru. Pennir y gyllideb flynyddol yn dilyn proses hir o adolygu pwysau ac arbedion ar draws yr holl wasanaethau ac ymgysylltu ag aelodau etholedig ac eraill.

Yn y tymor canolig, mae'r cyngor yn dilyn Cynllun Ariannol Tymor Canolig treigl dros dair blynedd sy'n rhoi amcangyfrif o sefyllfa ariannol y cyngor dros y cyfnod ac yn cynnwys amcangyfrifon, drwy weithio gyda gwasanaethau, o arbedion sy'n ofynnol neu anghenion am gyllid ychwanegol. Roedd y broses gynllunio tymor canolig hon wedi helpu i ganfod a diogelu, drwy gyllideb y Cyngor, cyllid ychwanegol o £2m yn 2019/20 i helpu i ddelio â phwysau cynyddol mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a gwasanaethau plant.

Mae cynllunio ariannol mewnol prif ffrwd yn digwydd yn fisol yng nghyfarfodydd timau arwain/ rheoli'r Gwasanaeth. Canolbwyntir ar fonitro perfformiad a'r sefyllfa ariannol yn y meysydd sydd o dan y pwysau mwyaf. Mae swyddogion cyllid y Gwasanaeth hefyd yn cwrdd yn rheolaidd â Phenaethiaid Gwasanaeth a Thîm Gweithredol y Rheolwyr.

### **Gweithio mewn Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd**

Mae'r cyngor wedi rhoi trefniadau cadarn ar waith ar gyfer llywodraethu mewnol er mwyn rheoli Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Plant ac Addysg yn effeithiol. Cyflwynir adroddiadau i wahanol Bwyllgorau Craffu drwy gydol y flwyddyn i alluogi Aelodau Etholedig i graffu ar bolisi a pherfformiad mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol, yn cynnwys adroddiadau i fonitro cynnydd ar unrhyw gamau sy'n ofynnol i ymateb i adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr neu adroddiad blynyddol AGC.

Mae gennym broses hefyd sydd wedi'i hirsefydlu ar gyfer herio perfformiad gwasanaethau, lle mae pob pennaeth gwasanaeth yn cael ei herio'n flynyddol ar feysydd fel perfformiad y gwasanaeth ac arweinyddiaeth. Mae'r panel ym mhob cyfarfod ar gyfer herio perfformiad gwasanaethau yn cynnwys y Prif Weithredwr; Cyfarwyddwyr Corfforaethol; Aelodau Arweiniol; Aelodau Pwyllgorau Craffu a'n harchwilwyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru).

Yn ogystal â'r broses ar gyfer herio perfformiad gwasanaethau, mae'r cyngor yn gweithredu fframwaith cadarn ar gyfer rheoli perfformiad sy'n cynnwys cyflwyno adroddiadau i'r Uwch Dîm Arwain; Pwyllgorau Craffu; a'r Cabinet, a chyflwynir adroddiadau amrywiol i Bwyllgorau Craffu ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau penodol, fel rhai ar Ganmoliaeth a Chwynion.

Mae darparu dull integredig a chydweithredol o gynnis gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mae darparu gwasanaethau di-dor i'n dinasyddion hefyd yn flaenoriaeth Gorfforaethol. O fewn Sir Ddinbych, mae ein tîm Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn cydweithio'n agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ogystal â phartneriaid yn y Trydydd Sector a'r Sector Annibynnol i ffurfio Timau Adnoddau Cymunedol (TACau) ar draws gwasanaethau Gofal Sylfaenol a chymunedol. Y nod yw darparu dull cyson o gwrdd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol a chreu'r gallu i weithio mewn modd mwy integredig rhwng gwasanaethau Gofal Sylfaenol a chymunedol ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddarparu gwasanaeth di-dor i ddinasyddion.



Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac yn cynnal y tîm sy'n cyflawni'r gwaith ar ran y Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cymdeithasau Tai a'r Trydydd Sector. Gweledigaeth y Bwrdd yw "Gwella iechyd a lles pobl a chymunedau gyda'n gilydd".

Mae cysylltiadau a gwaith partneriaeth sydd wedi'u sefydlu'n dda yn weithredol ar draws y gwasanaethau cymdeithasol i blant ac oedolion o fewn amryw sefydliadau, gan gynnwys ystod o sefydliadau Trydydd Sector, Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Tân ac Achub, ynghyd ag amryw Ddarparwyr Gofal yn y sector preifat, sy'n cynnwys gofal cartref a phreswyl.

## Adran 6. Cael Gafael ar Ragor o Wybodaeth a Dogfennau Allweddol

Adroddiad Blynyddol ar Adborth Cwsmeriaid 2018/2019: <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/cwynion-canmoliaethau-ac-adborth/gwneud-cwyn/gwneud-cwyn-am-y-cyngor.aspx>

Cynlluniau a strategaethau corfforaethol: <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/strategaethau-corfforaethol/cynlluniau-a-strategaethau-corfforaethol.aspx>

Diogelu: <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/diogelu.aspx>

Safonau Iaith Gymraeg: <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/safonau-iaith-gymraeg.aspx>

Lles mewn ysgolion: <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/addysg-ac-ysgolion/gwybodaeth-ar-gyfer-ysgolion/lles-mewn-ysgolion.aspx>

Strategaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar Ddigartrefedd: <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/strategaethau-tai/strategaeth-rhanbarthol-gogledd-cymru-ar-ddigartrefedd.aspx>

Pwyntiau Siarad: <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/oedolion-a-phobl-hyn/pwyntiau-siarad.aspx>

Eiriolaeth: <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/eiriolaeth.aspx>

DEWIS Cymru: <https://www.dewis.cymru/>

Help i fyw adref: <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/oedolion-a-phobl-hyn/help-i-fyw-adref.aspx>

Cymorth i ofalwyr: <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/gofalwyr/gofalwyr.aspx>

Porth Sgwrs y Sir: <https://countyconversation.denbighshire.gov.uk/KMS/news.aspx>

Hamdden Sir Ddinbych: <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/hamdden/hamdden.aspx>

Dewisiadau Tai (Tai Gofal Ychwanegol): <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/oedolion-a-phobl-hyn/cyngor-a-chyfarwyddyd-ynglŷn-â-thai/dewisiadau-tai.aspx>

Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych: <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/gofal-cymdeithasol/Heneiddio'n-Dda-yn-Sir-Ddinbych.aspx>

Gwasanaethau Cymorth Cymunedau – Arolwg Blynyddol:  
<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswylwr/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/oedolion-a-phobl-hyn/gwasanaethau-cymorth-cymunedau-arolwg-blynyddol.aspx>